# CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU
# A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 04 EBRILL 2025 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS

**Yn bresennol:** Karen Jones (Cadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Eifion Evans (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Andy Wilkins (ar ran Paul Orders)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd); Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Caitlin Lowry (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd); Ellie Chapman (Cymorth Tîm)

**Gwahoddedigion:** Sarah Ling (Ymgynghorydd); Rhydian Thomas (y Comisiwn Etholiadol); Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Elan Stephens (y Comisiwn Etholiadol); Clare Sim (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)); Huw Elfed Roberts (AEA); Rhys George (AEA); Mathew Xerri (Llywodraeth Cymru); William Whiteley (Llywodraeth Cymru); Zachary Brooks (Llywodraeth Cymru); Paul Docker (Llywodraeth y Deyrnas Unedig); Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion)

**Ymddiheuriadau:** Paul Orders (Aelod); Beverly Owen (Aelod); Mark Shephard (Aelod); Paula Walters (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru); Becci Light (Cyngor Caerdydd); Becca Crosier (Llywodraeth y Deyrnas Unedig); Michael Kay (Llywodraeth Cymru)

**Amser Dechrau: 10:11**
**Amser Gorffen: 11:49**

## 1. Datganiadau Buddiannau

**1.1.** Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Croeso a Chyflwyniadau

**2.1.** Amlinellodd y Cadeirydd agenda'r cyfarfod, a oedd yn cynnwys diweddariadau ar ddeddfwriaeth diwygio etholiadol, gan nodi gwaith Bwrdd Cydlynu Etholiadol blaenorol Cymru, a thrafod y dogfennau llywodraethu a'r flaenraglen waith ar gyfer y Bwrdd newydd.

**2.2.** Croesawodd y Cadeirydd y mynychwyr i'r cyfarfod.

**2.3.** Cyflwynodd aelodau'r Bwrdd a'r mynychwyr eu hunain.

## 3. Trosolwg gan Lywodraeth Cymru

**3.1.** Cyflwynwyd eitem 3 ar lafar.

**3.2.** Rhoddodd Mathew Xerri drosolwg o statws presennol deddfwriaeth diwygio etholiadol, gan gynnwys Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl), rheoliadau ar gyfer y platfform gwybodaeth am etholiadau, a phleidleisio absennol ar-lein.

**3.3.** Esboniodd Mathew Xerri fod y ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ar waith. Y darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n derbyn sylw ar hyn o bryd yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl). Caeodd yr ymgynghoriad ym mis Chwefror a bwriedir cyflwyno'r gorchymyn ym mis Mai. **Nodwyd** bod Llywodraeth Cymru (LlC) wrthi ar hyn o bryd yn mynd trwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwneud newidiadau i'r gorchymyn, gan ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid fel Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) a'r Comisiwn Etholiadol ar sylwadau manwl allweddol.

**3.4.** Dywedodd Mathew Xerri fod bil aelodau preifat yn Nhŷ'r Cyffredin i alluogi pleidleiswyr yng Nghymru a'r Alban i wneud cais am bleidlais drwy'r post gan ddefnyddio gwasanaeth ar-lein y Deyrnas Unedig, a bod gwaith yn mynd rhagddo rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a rhanddeiliaid eraill.

**3.5.** **Nodwyd** bod y Gorchymyn ar gyfer Ffiniau'r Senedd 2026 ar y gweill, a'r dyddiad cau ar ei gyfer yw 17 Mehefin 2025.

**3.6.** Rhoddodd y cynrychiolydd o'r Comisiwn Etholiadol wybodaeth am eu gwaith addysg gyhoeddus sydd i ddod i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar y gweill i'r broses etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd.

**3.7.** Trafodwyd gorchymyn anghymhwyso ymgeiswyr i'r Senedd a'i ddyddiad cylchredeg.

## 4. Datganiad o Sefyllfa'r Platfform Gwybodaeth

**4.1.** Cyflwynwyd eitem 4 ar lafar.

**4.2.** Rhoddodd Shereen Williams a Sarah Ling ddiweddariad i'r Bwrdd ar ddatblygu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP), gan amlygu'r amserlenni tynn a'r angen am awtomeiddio i leihau'r llwyth gwaith ar gyfer gweinyddwyr etholiadol gymaint â phosibl.

**4.3.** **Nodwyd** bod gweithgor wedi cael ei sefydlu, a gydlynwyd gan LlC i ddechrau, i ddechrau gweithio ar y manylebau a datblygu'r WEIP. **Nodwyd** bod y grŵp wedi cyfarfod deirgwaith, ac yn fwyaf diweddar ddoe, pryd y cynhaliwyd gweithdy cynhyrchiol ar ofynion y platfform ac enwau posibl.

**4.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r amserlenni tynn ar gyfer cyflwyno'r platfform, gan anelu at gynnyrch sylfaenol hyfyw erbyn etholiadau 2026. **Nodwyd** mai anfantais cynnyrch sylfaenol hyfyw fydd mwy o waith ar ochr gefn y WEIP.

**4.5.** **Nodwyd** bod arbenigwr caffael wedi cael ei amlygu i weithio ar y platfform ac y bydd yn dechrau'r wythnos nesaf. **Nodwyd** y bydd y ddau ymgynghorydd sy'n gweithio ar y WEIP yn cyfarfod yr wythnos nesaf i drafod y camau nesaf.

**4.6.** Dywedodd Sarah fod angen i'r WEIP fod mor awtomeiddiedig â phosibl ar gyfer gweinyddwyr etholiadol, yn enwedig yn ystod y cyfnod enwebu a chyfnodau allweddol eraill, i leihau eu llwyth gwaith. **Nodwyd** bod manylebau rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) yn cael eu datblygu ar gyfer systemau meddalwedd rheoli etholiadol i hwyluso'r gwaith awtomeiddio hwn, ond fe allai fod yn anodd rhoi system gwbl awtomeiddiedig ar waith ar gyfer y cam cyntaf oherwydd yr amserlenni. Rhoddir mwy o fanylion i'r Bwrdd am yr opsiynau sy'n cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

**4.7.** **Nodwyd** y bydd cynllun y prosiect yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE), maes o law, i'w gymeradwyo.

**4.8.** Gofynnodd Neil Cockerton a oedd cofrestr risgiau ar gyfer y WEIP. Cadarnhawyd y bydd y gofrestr hon ar gael yn y cyfarfod nesaf, ochr yn ochr â'r cynllun prosiect arfaethedig a threfniadau llywodraethu'r prosiect.

## 5. Datganiad o Sefyllfa Materion Trawsffiniol

**5.1.** Rhoddodd Mathew Xerri y Datganiad o'r Sefyllfa ynglŷn â materion trawsffiniol. Soniodd Mathew am yr heriau sy'n gysylltiedig â gwaith trawsffiniol ar gyfer etholiad y Senedd, gan bwysleisio'r angen am ddull cyson a hyblyg.

**5.2.** Rhannodd Mathew wybodaeth o weithdy a gynhaliwyd ar 6 Mawrth gyda gweinyddwyr a rhanddeiliaid i drafod materion gwaith trawsffiniol. Nod y gweithdy oedd sefydlu dealltwriaeth gyffredin a thybiaethau cynllunio ar gyfer etholiad y Senedd.

**5.3.** **Nodwyd** bod y rhan fwyaf o etholaethau newydd y Senedd yn cynnwys mwy nag un awdurdod lleol, a bod rhai awdurdodau lleol wedi'u rhannu ar draws nifer o etholaethau, sy'n cyflwyno heriau ar gyfer gweithredu'r etholiad. Pwysleisiwyd yr angen am ddull cyson a hyblyg.

**5.4.** **Nodwyd** y bwriedir sefydlu is-bwyllgor i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan ddefnyddio canfyddiadau'r gweithdy i gyfrannu at waith yr is-bwyllgor.

**5.5.** **Nodwyd** bod angen trafod yn fanylach i bennu pa waith sy'n ofynnol ar lefel leol.

**6.** Trafodwyd yr angen brys i nodi Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ar gyfer Etholaethau'r Senedd. Pwysleisiodd Eifion Evans y pwynt hwn, gan esbonio bod hyn yn allweddol i alluogi'r gwaith cynllunio manwl i fynd rhagddo. Cadarnhaodd LlC fod gwaith i gytuno ar y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn mynd rhagddo fel blaenoriaeth.

**7. Datganiad o'r Sefyllfa o ran Cynlluniau Peilot Cofrestru Awtomatig**

**7.1.** Cyflwynwyd eitem 6 ar lafar.

**7.2.** Rhoddodd Mathew Xerri ddiweddariad ar y cynlluniau peilot cofrestru awtomatig sy'n cael eu cynnal yng Ngwynedd, Casnewydd, Powys, a Sir Gaerfyrddin, gan amlygu'r gwahanol fathau o gynlluniau peilot a'r llinell amser ar gyfer gwerthuso a chyflwyno o bosibl.

**7.3.** Esboniodd Mathew fod y cynlluniau peilot yn ceisio asesu ymarferoldeb cofrestru awtomatig, a bod gwahanol fathau o gynlluniau peilot yn cael eu cynnal yng Ngwynedd, Casnewydd, Powys, a Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynlluniau peilot yn defnyddio data lleol i amlygu etholwyr posibl a'u hychwanegu at y gofrestr oni bai eu bod yn optio allan o fewn 60 niwrnod.

**7.4.** Crybwyllodd Mathew fod y tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol yn datblygu dau hysbysiad cofrestru wahanol i'w profi gyda rhanddeiliaid, er mwyn ceisio amlygu'r dull cyfathrebu mwyaf effeithiol ar gyfer y cyhoedd. **Nodwyd** mai'r gwaith hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gysylltu ag etholwyr anodd eu cyrraedd.

**7.5.** Disgwylir i'r cynlluniau peilot gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Medi, a bydd y Comisiwn Etholiadol yn gwerthuso'r canlyniadau erbyn diwedd mis Rhagfyr. Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr adroddiad gwerthuso ac yn penderfynu ar y posibilrwydd o gyflwyno cofrestru awtomatig ledled Cymru.

**7.6.** Trafodwyd y posibilrwydd y gallai Gwahoddiadau i Gofrestru yn sgil y diwygiad hwn ddrysu etholwyr. **Nodwyd** y bydd yn bwysig nad yw dryswch pleidleiswyr posibl yn negyddu budd unrhyw newidiadau.

**7.7.** **Nodwyd** y bydd ffigurau etholiadol yn cael eu hystyried ar gyfer yr Arolwg Seneddol nesaf a fydd yn dechrau ar ôl yr Arolwg Seneddol nesaf.

**7.8.** **Gweithredu:** Cyflwyno canlyniadau'r cynlluniau peilot i'r BRhE ar adeg cerrig milltir allweddol.

## 8. Blaengynllun Gwaith Drafft Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC) ar gyfer 2024/25

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Flaengynllun Gwaith Drafft BCEC ar gyfer 2024/25 a drosglwyddwyd i'r BRhE, ac fe'i **nodwyd**. Cyfeirir at y rhaglen waith wrth gadarnhau Blaenraglen Waith y BRhE er mwyn sicrhau nad yw gwaith pwysig yn cael ei golli wrth drosglwyddo o BCEC i'r BRhE.

## 9. Datganiad o'r Sefyllfa o ran y Gymraeg

**9.1.** Cyflwynwyd eitem 8 ar lafar.

**9.2.** Rhoddodd Eifion Evans y Datganiad o'r Sefyllfa o ran y Gymraeg, gan drafod gwaith Grŵp yr Iaith Gymraeg.

**9.3.** Amlygodd Eifion gyflawniadau'r grŵp wrth sicrhau cysondeb mewn dogfennau dwyieithog a mynd i'r afael â heriau ymarferol wrth gyflwyno etholiadau dwyieithog, fel dod o hyd i staff dwyieithog ar gyfer gorsafoedd pleidleisio.

**9.4.** **Nodwyd** y dylai'r grŵp ganolbwyntio ar greu rhwydwaith cymorth ar gyfer y Gymraeg i hwyluso cyflwyno etholiadau'n ddwyieithog a chynigiwyd cynnal arolwg i amlygu gofynion newydd ac anghenion cymorth.

**9.5.** **Nodwyd** bod yr AEA yn archwilio'r potensial ar gyfer darparu hyfforddiant dwyieithog ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiad 2026, a allai helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a amlygwyd gan Grŵp yr Iaith Gymraeg. **Nodwyd** bod Gwynedd a Cheredigion eisoes wedi mynegi diddordeb yn hyn.

**9.6.** Amlygodd Eifion bwysigrwydd peidio â dibynnu ar systemau cyfrifiadurol ar gyfer cyfieithu a'r angen i gael siaradwyr Cymraeg dwyieithog.

**9.7.** **Nododd** Rhydian o'r Comisiwn Etholiadol fod y rhestr termau ddwyieithog ar gyfer gweinyddwyr etholiadol wedi bod yn ddefnyddiol yn y gorffennol.

**9.8.** **Nodwyd** y dylai Awdurdodau Lleol amlygu'r cymorth sy'n ofynnol er mwyn helpu i gyflwyno etholiadau dwyieithog. **Nodwyd** a **chytunwyd** i gynnal arolwg er mwyn ailasesu'r angen am hyfforddiant dwyieithog.

10. **Gweithredu:** Lowri Edwards i drefnu trafodaeth rhwng yr AEA (Clare Sim), cydweithwyr yn y Comisiwn Etholiadol a'r ddau Gomisiynydd sy'n aelodau o'r BRhE i gytuno ar y meysydd i roi sylw iddynt yn yr arolwg arfaethedig. Dylai'r grŵp hefyd drafod ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg a'r ffordd orau o ddatblygu hynny.

**11. Datganiad o Sefyllfa'r Is-grŵp Cyfathrebu**

**11.1.** Cyflwynwyd eitem 9 ar lafar.

**11.2.** Rhoddodd Lowri Edwards Ddatganiad o Sefyllfa'r Is-grŵp Cyfathrebu.

**11.3.** **Nodwyd** bod yr Is-grŵp Cyfathrebu wedi cael ei sefydlu yn 2021 i sicrhau negeseuon cyson a chydweithio ymhlith awdurdodau lleol, y Comisiwn Etholiadol, a rhanddeiliaid eraill. Mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar rannu arferion da ac amlygu bylchau mewn adnoddau.

**11.4.** Pwysleisiodd Lowri bwysigrwydd hyrwyddo'r platfform gwybodaeth am etholiadau ac esbonio'r newidiadau i ffiniau a'r system bleidleisio i'r cyhoedd. Bydd y grŵp yn parhau i weithio ar sicrhau negeseuon cyson a chydweithio.

**11.5.** **Nodwyd** bod BCEC yn awyddus i barhau â'r Is-grŵp Cyfathrebu.

**11.6.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda Chomisiwn y Senedd, LlC a rhanddeiliaid eraill i gydlynu cyfathrebu ar lefel genedlaethol a sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu a ddatblygwyd yn effeithiol.

12. O ystyried yr amrywiaeth o weithgarwch cyfathrebu sydd eisoes yn cael ei gynnal i gefnogi gwaith SERDB a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC), **cytunwyd** y byddai'n bwysig cwmpasu beth sydd eisoes yn digwydd er mwyn penderfynu beth y dylai'r BRhE ganolbwyntio ei weithgareddau cyfathrebu arno. Bydd Cadeirydd y BRhE yn trefnu cynnal ymarfer 'mapio ac amlygu bylchau' i lywio trafodaethau'r BRhE yn y dyfodol.

**13. Derbyn ac adolygu'r Canllaw ar Rôl y Bwrdd a Rheolau Gweithdrefnau**

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Canllaw ar Rôl y Bwrdd a'r Rheolau Gweithdrefnau.

**13.2.** Amlinellodd y Cadeirydd y berthynas rhwng CDFfC a'r BRhE ac yna aeth ymlaen i adolygu swyddogaethau'r BRhE fel y'u nodir yn y dogfennau llywodraethu drafft.

**13.3.** Esboniodd y Cadeirydd aelodaeth arfaethedig y Bwrdd, y mae'n rhaid iddi gynnwys dau Gomisiynydd CDFfC (y mae'n rhaid i un ohonynt gael ei benodi gan CDFfC i gadeirio'r cyfarfodydd) a chynrychiolwyr sy'n swyddogion canlyniadau, swyddogion cofrestru etholiadol neu sydd wedi cyflawni'r rolau

hyn yn ffurfiol. Yn y lle cyntaf, penderfynwyd gwahodd y pum swyddog canlyniadau rhanbarthol presennol i fod yn aelodau, ond byddai hyn cael ei adolygu yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2026 pan fydd y rolau rhanbarthol yn dod i ben. Ni fydd dirprwy gadeirydd y Bwrdd yn aelod o CDFfC. **Nodwyd** bod Eifion Evans wedi cael ei enwebu'n Ddirprwy Gadeirydd gan aelodau eraill y BRhE ac y bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ffurfiol yng nghyfarfod mis Mehefin pan fydd y dogfennau llywodraethu terfynol yn cael eu cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth. Amlygodd y Cadeirydd hefyd weithdrefnau arfaethedig y cyfarfodydd, gan gynnwys y cworwm, y rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y Bwrdd a'r gallu i drefnu cyfarfodydd ychwanegol, os bydd angen.

**13.4.** **Nododd Shereen Williams** y byddai'r Bwrdd yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu presennol y Comisiwn, gan gynnwys polisïau diogelu data, ac y byddai'r tîm Iechyd Democrataidd yn gweithredu fel yr ysgrifenyddiaeth, gan gefnogi gwaith y Bwrdd. **Nodwyd** bod cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer cyngor cyfreithiol i'r BRhE. **Nodwyd** hefyd fod y BRhE yn eitem sefydlog ar bapurau cyfarfod Bwrdd CDFfC.

**13.5.** **Nodwyd** y bwriedir cynnal cyfarfodydd y BRhE bob deufis, gyda chworwm o 4. **Nodwyd** mai dim ond aelodau'r Bwrdd fydd â phleidlais, a bod yr un pwys i bob pleidlais. **Nodwyd** y bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw os bydd pleidlais gyfartal. Os na fydd aelodau'n gallu mynychu, byddai angen i ddirprwyon fodloni'r meini prawf yn y ddeddfwriaeth – h.y. mae'n rhaid iddynt fod yn Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau neu wedi cyflawni un o'r rolau hyn yn ffurfiol.

**13.6.** Derbyniwyd y Canllaw ar Rôl y Bwrdd a'r Rheolau Gweithdrefnau. Gofynnwyd i'r aelodau adolygu'r dogfennau llywodraethu a rhoi unrhyw sylwadau fel y gellir ystyried a chymeradwyo fersiynau terfynol o'r dogfennau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

**14. Derbyn ac adolygu'r Flaenraglen Waith amlinellol**

**14.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Flaenraglen Waith amlinellol.

**14.2.** Rhoddwyd ystyriaeth i bynciau a blaenoriaethau posibl ar gyfer gwaith y Bwrdd, gan gynnwys risgiau diogelwch, y Post Brenhinol, ac ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol.

**14.3.** **Nodwyd** y bydd angen i'r BRhE gael safbwynt cynnar gan y Post Brenhinol ynglŷn â chapasiti a gallu, a chan Wasanaeth yr Heddlu a Diogelwch ynglŷn â risgiau diogelwch.

**14.4.** Trafodwyd a **nodwyd** y Rhaglen Diogelwch Etholiadau ar y Cyd (JESP).

**14.5.** **Gweithredu:** Gwahodd cynrychiolydd o'r Rhaglen Diogelwch Etholiadau ar y Cyd (JESP) i roi diweddariad ar ddiogelwch etholiadau, gan gynnwys seiberddiogelwch a brawychu ymgeiswyr.

**14.6.** **Gweithredu:** Gwahodd y Post Brenhinol i drafod y prosesau ar gyfer datganiadau ymgeiswyr a materion ehangach yn ymwneud â danfoniadau post.

**14.7.** O ran y ddau gam uchod, cynigiodd Paul Docker helpu i hwyluso cysylltiad â'r Bwrdd a'r asiantaethau perthnasol.

## 15. Derbyn a chytuno ar yr amserlen arfaethedig o ddyddiadau cyfarfodydd i ddod

**15.1.** Bydd yr amserlen arfaethedig o ddyddiadau cyfarfodydd i ddod yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y BRhE ar 6 Mehefin 2025 i'w chytuno.

## 16. Diweddariadau Asiantaethau – Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**16.1.** Cyflwynwyd eitem 13 ar lafar.

**16.2.** Rhoddodd Paul Docker ddiweddariad ar fentrau amrywiol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yr adolygiad o gyfraith etholiadol, pleidleisio drwy'r post, a'r posibilrwydd o gyflwyno bil etholiadau. Gofynnwyd am gyfraniad gan weinyddwyr etholiadol at y gwaith yn ymwneud â gwasanaethau post cyffredinol a chytunodd cynrychiolwyr yr AEA a oedd yn bresennol i ymgynghori â chydweithwyr i gael syniad o ddiddordeb. Nodwyd hefyd bod ymgynghoriad pwysig yn cael ei gynnal ar ddyfodol gwasanaethau post o ystyried bod perchnogaeth y Post Brenhinol ar fin newid. Gwahoddwyd holl aelodau'r Bwrdd i ddarllen y ddogfen ymgynghori a thynnwyd eu sylw at ymateb yr AEA i'r ymgynghoriad.

## 17. Diweddariadau Asiantaethau – Y Comisiwn Etholiadol

**17.1.** Cyflwynwyd eitem 14 ar lafar.

**17.2.** Rhoddodd Rhydian a Cath ddiweddariadau ar waith y Comisiwn Etholiadol, gan gynnwys cynllunio ar gyfer etholiadau'r Senedd, ymgysylltu â swyddogion cofrestru etholiadol, a chynllun corfforaethol y Comisiwn ar gyfer y Deyrnas Unedig sydd ar fin cael ei gyhoeddi. Yn dilyn etholiad y Senedd yn 2026, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi cynllun corfforaethol newydd ar gyfer Cymru.

## 18. Diweddariadau Asiantaethau – Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)

**18.1.** Cyflwynwyd eitem 15 ar lafar.

**18.2.** Rhoddodd Clare ddiweddariad ar gymorth yr AEA ar gyfer Cymru, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant i swyddogion canlyniadau i'w cynorthwyo â'r diwygiadau deddfwriaethol diweddar, a hyfforddiant dwyieithog ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio. Mae'r AEA yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant hwn ac mae adborth gan awdurdodau lleol yn dangos bod galw amdano. Cadarnhaodd Clare eu bod yn diweddaru'r cwrs Sylfaen ar gyfer Cymru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol.

**18.3. Gweithredu:** Clare i anfon gwybodaeth am y cyrsiau hyfforddi ar gyfer swyddogion canlyniadau a gweinyddwyr, gan gynnwys y cwrs Sylfaen ar gyfer Cymru a hyfforddiant dwyieithog ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio.

## 19. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**19.1. Nodwyd** y dylai unrhyw randdeiliaid a hoffai dderbyn y llythyr ymgysylltu rheolaidd ynglŷn ag etholiadau gysylltu ag etholiadau.elections@gov.wales .

**19.2. Nodwyd** os hoffai unrhyw un ychwanegu rhywbeth at yr agenda, dylent roi gwybod i Mark.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 6 Mehefin 2025

**CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 06 MEHEFIN 2025 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS**

**Yn bresennol:** Karen Jones (Cadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Eifion Evans (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Beverley Owen (Aelod); Paul Orders (Aelod)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Caitlin Lowry (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd)

**Gwahoddedigion:** Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Elan Stephens (y Comisiwn Etholiadol); Clare Sim (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)); Huw Elfed Roberts (AEA); Rhys George (AEA); Michael Kay (Llywodraeth Cymru); Mathew Xerri (Llywodraeth Cymru); Zachary Brooks (Llywodraeth Cymru); Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion); Tom Davies (y Comisiwn Etholiadol), Greg Brownlow (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)), Becca Crosier (MHCLG); William Whiteley (Llywodraeth Cymru)

**Ymddiheuriadau:** Sarah Ling (Ymgynghorydd); Paul Docker (MHCLG); Rhydian Thomas (y Comisiwn Etholiadol); Mark Shephard (Aelod)

**Amser Dechrau: 10:04**
**Amser Gorffen: 11:54**

## 1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

**1.1.** Croesawodd y Cadeirydd y mynychwyr.

**1.2.** Amlinellodd y Cadeirydd agenda'r cyfarfod a dywedodd y dylai ysgafnhau pan fydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) wedi'i sefydlu.

**1.3.** Esboniodd y Cadeirydd ei bod wedi cyfleu cydymdeimlad ar ran y Bwrdd i Rhydian Thomas o'r Comisiwn Etholiadol a gollodd ei bartner yn ddiweddar. Cafwyd munud o dawelwch i nodi'r angladd, a oedd wedi'i threfnu ar gyfer diwrnod y cyfarfod hwn.

## 2. Datganiadau Buddiannau

**2.1.** Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Derbyn a chymeradwyo dogfennau llywodraethu'r BRhE**

**4.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 4.

**4.2.** Trafodwyd dogfennau llywodraethu'r BRhE. **Nodwyd** y dylai'r mynychwyr fod yn gyfarwydd â'r rhain a bod rhai mân ddiwygiadau wedi'u gwneud iddynt ers cyfarfod diwethaf y BRhE.

**4.3.** **Nodwyd** y bu rhai newidiadau i'r meini prawf ar gyfer cadeirydd / is-gadeirydd a'r cworwm ar dudalennau 1-2.

**4.4.** **Nodwyd** y bydd cofnodion cyfarfodydd y BRhE yn cael eu cyhoeddi ar wefan Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC).

**4.5.** Trafodwyd y canllawiau ar gyhoeddi cofnodion. **Nodwyd** bod CDFfC yn cyhoeddi ei gofnodion yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor archwilio sector cyhoeddus Cymru. **Nodwyd**, yn unol â'r egwyddorion hyn, bod swyddogion islaw gradd benodol yn cael eu cofnodi mewn cofnodion yn ôl eu teitl yn unig. **Nodwyd** y bydd cofnodion sy'n cynnwys penderfyniadau nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto yn aros heb eu cyhoeddi hyd nes y bydd penderfyniadau'n gyhoeddus.

**4.6.** **Nodwyd** y gellir adolygu'r dogfennau llywodraethu hyn, fel y bo angen.

**4.7.** **Nodwyd** yr argymhelliad i gymeradwyo'r dogfennau hyn ac fe'u **cytunwyd** gan y Bwrdd.

**5. Trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2025/26**

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 5.

**5.2.** Rhoddodd Shereen Williams drosolwg o eitem 5. **Nodwyd** bod adnodd ychwanegol wedi cael ei ddyrannu o fewn CDFfC i hwyluso gwaith y BRhE.

**5.3.** **Nodwyd** hyblygrwydd y gyllideb a'r posibilrwydd o drafod cyllideb ychwanegol.

**5.4.** **Nodwyd** bod y gyllideb ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP) ar wahân i'r gyllideb ar gyfer y BRhE a CDFfC. **Nodwyd** bod

cyllideb wedi'i dyrannu a fydd ar gael ar gyfer y WEIP, ac y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn gysylltiedig ag ef.

**5.5.** **Nodwyd** bod gan CDFfC bwerau i ailgodi tâl ar gyrff am wasanaethau a ddarparwyd yn unol ag arferion gwneud pryniadau'n ganolog ac adennill costau gan Awdurdodau Lleol.

**5.6.** **Nodwyd** eitem 5, gan ddisgwyl y bydd y Bwrdd yn datblygu blaenraglen waith wedi'i phrisio er mwyn rhoi mwy o sicrwydd bod digon o adnoddau i gefnogi cyflawni swyddogaethau'r Bwrdd.

**6. Cytuno ar ddirprwy gadeirydd y BRhE**

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i benodi Eifion Evans, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, yn ddirprwy gadeirydd y BRhE.

**6.2.** **Cytunwyd** i benodi Eifion Evans yn ddirprwy gadeirydd.

**7. Derbyn a chytuno ar y rhaglen cyfarfodydd**

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 7.

**7.2.** Trafodwyd y rhaglen cyfarfodydd, sef yn nodedig rhaglen ddeufisol gyda chyfarfod ychwanegol i'w gynnal ddydd Gwener 6 Mawrth 2026 wrth baratoi ar gyfer Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.

**7.3.** **Cytunwyd** ar eitem 7.

**7.4.** **Gweithredu:** Gwahoddiadau calendr ar gyfer cyfarfodydd wrth symud ymlaen.

**8. Diweddariad gan LIC ar benodi Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, y gorchymyn cynnal etholiadau a threuliau etholiad**

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 8.

**8.2.** Rhoddwyd diweddariad gan MK o LIC, a amlinellodd fanylion amrywiol o'r papur. **Nodwyd** bod y gair Saesneg 'chairman' wedi cael ei ddisodli â 'chairperson'.

**8.3.** **Nodwyd** y bydd y Gorchymyn yn cael ei drafod yn y Senedd ar 8 Gorffennaf.

**8.4.** **Nodwyd** bod y gorchymyn costau ar gyfer etholiad y Senedd wrthi'n cael ei lunio ar hyn o bryd. **Nodwyd** bod angen dealltwriaeth dda y bydd taliadau'n cael eu hadennill ar ôl yr etholiad.

**8.5.** **Nodwyd** bod cofrestrau electronig yn helpu i gynnal etholiad yn ddidrafferth, ond bod y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu i'r etholiadau y mae'n gyfrifol amdanynt. Nodwyd y byddai'r costau sy'n gysylltiedig ag etholiad y Senedd sydd i ddod yn gymwys i gael eu had-dalu a chytunwyd y byddai'r pwynt hwn yn cael ei egluro cyn gynted â phosibl i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau Etholaethol/Swyddogion Canlyniadau i benderfynu sut maen nhw'n dymuno symud ymlaen, gan nodi bod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig fuddiant mewn etholiadau a gedwir yn ôl a bod llywodraeth leol yn gyfrifol am y costau sy'n gysylltiedig â'i hetholiadau ei hun.

**8.6.** **Nodwyd** yr angen am gysondeb rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn hyn o beth a **nodwyd** y gallai problemau godi yn ystod polau a gedwir yn ôl, fel etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu 2028, os oedd anghysondeb o ran defnyddio cofrestrau electronig.

**8.7.** Trafodwyd penodi Swyddogion Canlyniadau Etholaethol. **Nodwyd** bod hysbysiadau anffurfiol eisoes wedi'u gwneud ac y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ysgrifennu at y penodedigion cyn hir. **Nodwyd** y bydd y penodiadau swyddogol a'r dynodiad cyfreithiol yn digwydd ar ôl i'r gorchymyn cynnal etholiadau gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf.

**8.8.** Trafodwyd pwysigrwydd nodi Swyddogion Canlyniadau Etholaethol fel y gellir ymgymryd â'r gwaith cynllunio manwl ar gyfer yr etholiad.

**8.9.** **Nodwyd** bod y tîm perthnasol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes yn ymdrin â hyn gyda Llywodraeth Cymru, a'i fod yn faes maen nhw'n awyddus i'w ystyried. **Nodwyd** buddion technoleg, yn ogystal ag ansicrwydd gweinidogol ac ariannol.

**8.10.** **Gweithredu:** Cynnwys cofrestrau digidol fel eitem i'w thrafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

## 9. Diweddariad ar gynlluniau i gyfathrebu ynglŷn â diwygiadau etholiadol

**9.1.** Cyflwynwyd eitem 9 ar lafar.

**9.2.** Rhoddodd Elan Stephens o'r Comisiwn Etholiadol ddiweddariad. **Nodwyd** y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyfarfod â Phwyllgor y Llywydd ar ddechrau mis Gorffennaf i drafod lledaenu gwybodaeth am newidiadau etholiadol. Trafodwyd defnyddio'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol.

**9.3.** **Nodwyd** mai Pwyllgor y Llywydd fydd y cyntaf i weld cyllideb y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y gwaith hwn, sy'n amcangyfrif ar hyn o bryd.

**9.4.** **Nodwyd** y bydd gwaith dilynol ar ôl y cyfarfod gyda gwybodaeth fanylach am y gyllideb.

**9.5.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynnig i Bethan Williams-Price ymuno â Grŵp Cyfathrebu Etholiadau'r Senedd 2026 a **chytunwyd** arno. Bydd cysylltiad clir rhwng y BRhE a'r Grŵp wrth symud ymlaen.

**9.6.** **Gweithredu:** Trafod y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i gysondeb mewn hysbysiadau statudol yn y Grŵp Cynllunio Etholiadau a rhoi cyngor i'r BRhE yn y cyfarfod nesaf.

**9.7.** **Gweithredu:** Cyflwyno papur rheolaidd ar drefniadau cyfathrebu i gyfarfodydd.

## 10. Diweddariad ar gynlluniau i ddarparu hyfforddiant i Swyddogion Canlyniadau a thimau etholiadau

**10.1.** Cyflwynwyd eitem 10 ar lafar.

**10.2.** **Nodwyd** bod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) yn gallu darparu hyfforddiant dwyieithog i staff gorsafoedd pleidleisio a bod 17 o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru eisoes wedi ymrwymo i'r hyfforddiant. **Nodwyd** ymhellach fod un etholaeth sydd wedi'i ffurfio o ddau Awdurdod Lleol wedi cadarnhau na fydd yn cwblhau'r hyfforddiant.

**10.3.** Yn ogystal â'r hyfforddiant ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio, cadarnhaodd yr AEA eu bod wedi diweddaru eu hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ac y byddai'n cael ei gynnig ym mis Medi. Yn ogystal, roedd y Cwrs Sylfaen wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys y newidiadau a gyflwynwyd yn rhan o'r diwygiadau etholiadol, a byddai hyn ar gael yn yr hydref, hefyd – byddai'n addas i weinyddwyr etholiadol.

**10.4.** Yn ogystal â'r hyfforddiant ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio, cadarnhaodd yr AEA eu bod wedi diweddaru eu hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ac y byddai'n cael ei gynnig ym mis Medi. Yn ogystal, roedd y Cwrs Sylfaen wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys y newidiadau a gyflwynwyd yn rhan o'r diwygiadau etholiadol, a byddai hyn ar gael yn yr hydref, hefyd – byddai'n addas i weinyddwyr etholiadol.

**10.5.** **Gweithredu:** Ymgysylltu â Swyddogion Canlyniadau Etholaethol i drafod yr hyfforddiant sydd ar gael, gyda phwyslais ar gysondeb, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r Gymraeg.

## 11. Derbyn a chytuno ar y Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID), y trefniadau llywodraethu a chynllun y prosiect ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP)

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r PID, y trefniadau llywodraethu a chynllun y prosiect. **Nodwyd** y gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r eitem.

**11.2.** Rhoddwyd ystyriaeth i adran 3 – Strwythur llywodraethu. **Nodwyd** mai CDFfC sy'n gyfreithiol gyfrifol am y platfform ond bod gan y BRhE bwerau penderfynu.

**11.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i aelodaeth Grŵp Llywio'r WEIP, a **nodwyd** y byddai Karen Jones yn Cadeirio'r grŵp a bod Neal Cockerton wedi cael ei wahodd i'r Grŵp fel ail aelod o'r BRhE. **Argymhellwyd** bod y Bwrdd yn cymeradwyo dau aelod y Grŵp o'r BRhE.

**11.4.** **Nodwyd**, am resymau yn ymwneud ag amseru, y bydd rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y BRhE trwy e-bost hefyd.

**11.5.** **Cytunwyd** ar y PID.

**11.6.** **Cytunwyd** ar y trefniadau llywodraethu.

**11.7.** **Cytunwyd** ar aelodaeth y Grŵp Llywio.

**11.8.** **Nodwyd** y bydd manylebau'r WEIP yn cael eu hadolygu gan y Grŵp Llywio yr wythnos nesaf ac, os ystyrir eu bod yn addas i'r diben, gofynnir i aelodau'r BRhE gymeradwyo'r fanyleb drwy e-bost yr wythnos nesaf.

**11.9.** **Nodwyd** diolch i Ceri Davies o LIC am gynorthwyo'r Grŵp Llywio fel cyfaill beirniadol.

**12. Derbyn a nodi'r cynllun caffael**

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynllun caffael ac fe'i **nodwyd**.

**13. Derbyn a chymeradwyo'r cylch gwaith a'r gofrestr risgiau ar gyfer y Grŵp Cynllunio Etholiadau**

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 13.

**13.2.** **Nodwyd** mai nod yr is-grŵp cynllunio etholiadau yw cefnogi gwaith y BRhE. **Nodwyd** y cyfle i roi eglurder cynnar i bartïon â buddiant.

**13.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r gofrestr risgiau a **nodwyd** yr angen am sgoriau risg gynhenid a sgoriau risg weddilliol.

**13.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r amserlen gyfrif a'r llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y BBC ynglŷn â chyfrif drannoeth.

**13.5.** Trafodwyd yr opsiwn ar gyfer cyfrif drannoeth. **Nodwyd** y dylid blaenoriaethu cyfrif drannoeth, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol sylweddol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r etholaethau mwy o faint a'r heriau logistaidd sy'n gysylltiedig â dychwelyd blychau pleidleisio i'r canolfannau

cyfrif. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ddefnyddio staff gorsafoedd pleidleisio'n fwy effeithiol os bydd cyfrif drannoeth.

**13.6.** Rhoddwyd ystyriaeth i ochr weithredol diwrnod etholiad o safbwynt gweinyddwr etholiadol. **Nodwyd** ôl troed daearyddol sylweddol yr etholaethau newydd.

**13.7.** **Cytunwyd** i ddatblygu cyfarwyddiadau drafft gan dybio y bydd papurau pleidleisio'n cael eu dilysu a'u cyfrif drannoeth.

**13.8.** **Nodwyd** mai pleidiau gwleidyddol yw'r rhai sy'n gwrthwynebu cyfrif drannoeth. **Nodwyd** bod mesurau lliniaru ar gyfer gwrthod yn gallu cynnwys hysbysu'n gynnar er mwyn sicrhau nad yw pleidiau gwleidyddol yn disgwyl rhywbeth na fydd yn digwydd.

**13.9.** **Nodwyd** y byddai'n fuddiol i'r holl randdeiliaid petaent yn cael gwybod yn gynnar am drefniadau dilysu a chyfrif eglur a chyson.

**13.10.** Rhoddwyd ystyriaeth i faint o ganolfannau cyfrif a allai weithredu ledled Cymru. Pan fyddai'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a benodwyd wedi'u cadarnhau, nodwyd y byddai trefniadau cyfrif, ynghyd ag ystyriaethau cynnar eraill, yn cael eu trafod gyda Swyddogion Canlyniadau Etholaethol. **Nodwyd** y gellir cyflwyno'r ystyriaethau hyn i gyfarfod mis Awst.

**13.11.** **Nodwyd** efallai na fydd dull 'un ateb i bawb' yn fwyaf effeithiol.

**13.12.** Trafodwyd y risg i ymgeiswyr a'r risg i gydlyniant cymunedol. **Cytunwyd** i ddiwygio'r gofrestr risgiau i sicrhau bod risgiau cydlyniant cymunedol yn cael eu nodi'n glir. Trafodir gyda phwyntiau cyswllt gwasanaeth yr heddlu a diogelwch yn ystod y misoedd i ddod. Bydd diogelwch ac uniondeb etholiadau a chydlyniant cymunedol yn eitem yng nghyfarfod mis Awst.

**13.13.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o gynnal gweithdai ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn gynnar yn yr hydref, un yn y de ac un yn y gogledd. **Cytunwyd** i gynnal y gweithdai hyn, a chytunodd LIC i'w hariannu.

**13.14.** **Nodwyd** y gallai Solace fod â diddordeb mewn darparu cymorth mentora ledled Cymru.

**13.15.** **Gweithredu:** Egluro trefniadau cyfrif a chyflwyno cyfarwyddiadau drafft fel eitem yng nghyfarfod mis Awst.

**13.16.** **Gweithredu:** Diogelwch ac uniondeb etholiadau a risg cydlyniant cymunedol i'w cynnwys fel eitem yng nghyfarfod mis Awst.

**13.17.** **Gweithredu:** Y BRhE i gynnal dau weithdy ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn gynnar yn yr hydref.

**14. Nodi'r llythyr at y Cadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ynglŷn â Threialon Pleidleisio Hygyrch**

**14.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 14 ac fe'i **nodwyd**.

**14.2.** **Nodwyd** y bydd ymgysylltiad yn cael ei gynnal â'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) a bod croeso i'r aelodau gymryd rhan ynddo.

**14.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i b'un a fydd y Comisiwn Etholiadol yn rhoi unrhyw arweiniad ychwanegol ar hygyrchedd.

**14.4.** **Nodwyd** bod hyfforddiant yr AEA ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio eisoes yn cynnwys adrannau ar hygyrchedd a bod hyfforddiant y flwyddyn nesaf eisoes yn cael ei ddatblygu.

**14.5.** **Nodwyd** bod gwaith eisoes yn cael ei wneud ynglŷn â hygyrchedd cyfathrebu yn arwain at ddiwrnod yr etholiad ac nid dim ond cyfathrebu ar gyfer diwrnod yr etholiad ei hun.

**14.6.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wrthi ar hyn o bryd yn sicrhau bod yr arweiniad yn addas i'r diben.

**14.7.** **Nodwyd** pwysigrwydd y pwyslais ar ymarferoldeb darpariaethau hygyrchedd. **Mae cyfle i amlygu a lledaenu arfer da ledled Cymru a rhannu canlyniad y gwaith a wnaed gan Gaerdydd a Wrecsam yn rhan o'r ymchwil a gomisiynwyd gan LlC. Cytunwyd** y byddai cydweithwyr yn LlC yn cyflwyno'r BRhE a'r RNIB i'w gilydd.

**15. Diweddariad ar y Gymraeg**

**15.1.** **Nodwyd** yr arferai Bwrdd Cydlynu Etholiadau Cymru gael ei gefnogi gan Is-grŵp y Gymraeg. **Nodwyd** bod gwaith wedi cael ei wneud yn flaenorol i sicrhau unffurfiaeth ac ansawdd cyfathrebu a chyfieithiadau Cymraeg.

**15.2.** **Nodwyd**, yn flaenorol, bod yr is-grŵp yn ymdrin â'r holl faterion yn ymwneud â gwaith iaith Gymraeg. **Nodwyd** ei bod yn bwysig i'r BRhE gymryd cyfrifoldeb am waith iaith Gymraeg.

**15.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i gyfarfodydd blaenorol rhwng Eifion Evans, Rhydian Thomas o'r Comisiwn Etholiadol a Chomisiynydd y Gymraeg. Rhoddwyd ystyriaeth i heriau blaenorol wrth geisio cyrraedd safonau Comisiynydd y Gymraeg i ddarparu staff dwyieithog mewn gorsafoedd pleidleisio, yn enwedig ar ffin ddwyreiniol Cymru.

**15.4.** **Nodwyd** pwysigrwydd canolbwyntio ar ansawdd gweinyddiaeth ddwyieithog.

**15.5.** **Nodwyd** bod mwyafrif y cwynion a gyflwynir i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud ag ansawdd y cyhoeddiadau etholiad dwyieithog a wneir gan Swyddogion Canlyniadau. **Nodwyd** bod y Coleg Cymraeg wedi cynnig darparu

hyfforddiant i Swyddogion Canlyniadau ar gyhoeddiadau etholiad dwyieithog yn flaenorol.

**15.6.** Trafodwyd y cynnig i waith iaith Gymraeg fod yn rhan o waith craidd y BRhE ac nid is-grŵp. Cefnogwyd y cynnig gan Huw Elfed Roberts, a chynigiwyd cynorthwyo ag unrhyw weithdai a gynhelir.

**15.7.** Trafodwyd pwysigrwydd amlygrwydd i'r Gymraeg, er enghraifft laniardiau Cymraeg ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio dwyieithog.

**15.8.** **Cytunwyd** i gyflwyno manylion ynglŷn â sut i symud ymlaen â gwaith iaith Gymraeg yng nghyfarfod mis Awst.

**15.9.** **Gweithredu:** Cyflwyno manylion ynglŷn â gwaith iaith Gymraeg fel eitem yng nghyfarfod mis Awst.

## 16. Diweddariadau Asiantaethau – Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**16.1.** Cyflwynwyd eitem 16 ar lafar a rhoddwyd trosolwg o ddiweddariadau diweddar. Rhoddwyd ystyriaeth i brosiect 6 mis a gynhaliwyd o fis Hydref 2024 i fis Mawrth 2025. Rhoddwyd ystyriaeth i brif faterion cyflwyno etholiad.

**16.2.** Rhoddwyd rhagor o fanylion am y cynllun 6 mis, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â gweithgorau gan gynnwys rhanddeiliaid etholiadol ac yn canolbwyntio ar wella prosesau cyflwyno. **Nodwyd** bod nifer o argymhellion wedi'u gwneud ers hynny yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith hwn, sy'n cynnwys argymhellion ynglŷn â phleidleisio absennol a mireinio'r polisi yn ymwneud ag etholwyr dramor. **Nodwyd** y bydd yr holl argymhellion yn cael eu cyhoeddi mewn dogfen strategaeth bolisi yn y dyfodol agos, cyn toriad yr haf, gobeithio.

**16.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r pwyslais ar etholiadau fel gwasanaeth 'dim methu' a'r nod o ddileu'r brif risgiau cyflwyno.

**16.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i ddiwygio'r trefniadau ar gyfer gwirio hunaniaeth pleidleiswyr, nad ydynt yn gweithio fel y dylent ar hyn o bryd.

**16.5.** Trafodwyd gwaith parhaus ynglŷn ag aflonyddu a brawychu ymgeiswyr.

**16.6.** Trafodwyd y Bil Aelodau Preifat Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) a **nodwyd** nad oes diweddariadau ar hyn o bryd ar amseru'r Bil. **Nodwyd** bod y Bil yn y Senedd o hyd a'i fod y tu ôl i'r Bil Marw â Chymorth ar hyn o bryd, ond bod gwaith yn parhau i gefnogi'r Bil. **Nodwyd** y bydd Cam Pwyllgor y Bil yn dechrau ar 11 Mehefin.

**16.7.** **Nodwyd** pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid ynglŷn â hyn.

## 17. Diweddariadau Asiantaethau – Y Comisiwn Etholiadol

**17.1.** Cyflwynwyd eitem 17 ar lafar.

**17.2.** **Nodwyd** bod yr arweiniad ar etholiad y Senedd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Etholaethol wedi cael ei lunio a bod y Comisiwn Etholiadol mewn sefyllfa i rannu'r drafft cychwynnol. **Nodwyd** yr hoffai'r Comisiwn Etholiadol geisio safbwyntiau'r BRhE arno. **Nodwyd** yr amserlen dynn ar gyfer y gwaith hwn.

**17.3.** **Nodwyd** y bydd adnoddau allweddol penodol yn cael eu blaenoriaethu.

**17.4.** **Nodwyd** y bydd mwyafrif yr adnoddau'n cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror, yn ôl yr arfer.

**17.5.** **Gweithredu:** Y Pennaeth Iechyd Democrataidd i drafod yr arweiniad drafft hwn yn y Grŵp Cynllunio Etholiadau er mwyn rhoi adborth ychwanegol i'r Comisiwn Etholiadol.

## 18. Diweddariadau Asiantaethau – Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)

**18.1.** Cyflwynwyd eitem 18 ar lafar.

**18.2.** **Nodwyd** bod y dyddiadau ar gyfer Cwrs Sylfaen Cymru yr AEA wedi cael eu rhyddhau, ac y bydd yr hyfforddiant yn digwydd ym mis Medi a mis Hydref.

**18.3.** **Nodwyd** bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i grynhoi'r hyn sydd wedi newid ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a thimau Gwasanaethau Etholiadol cyn etholiadau'r Senedd.

## 19. Unrhyw Fater Arall

**19.1.** Nid oedd unrhyw fater arall perthnasol.

**19.2.** Diolchodd y Cadeirydd i'r mynychwyr am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 8 Awst 2025

**CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 08 AWST 2025 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS**

**Yn bresennol:** Karen Jones (Cadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Beverley Owen (Aelod); Paul Orders (Aelod)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu)

**Gwahoddedigion:** Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Elan Stephens (y Comisiwn Etholiadol), Rob Coombs (y Comisiwn Etholiadol); Michael Kay (Llywodraeth Cymru), Robert Joyce (Llywodraeth Cymru); Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion); Paul Docker (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)), Ashley Griffiths (MHCLG), Ann Koleth (MHCLG); William Whiteley (Llywodraeth Cymru); Tyrone Peach (Heddlu De Cymru); Paula Walters (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru); Sarah Ling (Ymgynghorydd)

**Ymddiheuriadau:** Martin Nicholls (Aelod); Eifion Evans (Aelod); Rhydian Thomas (y Comisiwn Etholiadol); Clare Sim (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol); Becca Crosier (MHCLG)

**Amser Dechrau: 10:01**
**Amser Gorffen: 12:00**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Dim

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**2.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2025 yn amodol ar rai diwygiadau.

**2.2.** Crynhodd y Cadeirydd y materion a oedd yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol, gan gynnwys cofrestrau digidol, hysbysiadau statudol, a chysylltu â'r RNIB.

**3. Diweddariad gan yr heddlu ar baratoadau ar gyfer 2026**

**3.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 3.

**3.2.** Trafodwyd y paratoadau ar gyfer plismona etholiad y Senedd 2026.

**3.3.** **Nodwyd** bod hyder y cyhoedd yn hollbwysig, a bod atal problemau'n amgenach nag erlyn. Mae sawl deddf sy'n cefnogi plismona etholiadau, gan gynnwys y Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, a'r Ddeddf Etholiadol, ymhlith eraill.

**3.4.** **Nodwyd** bod materion plismona'n cynnwys aflonyddu, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, a phlismona traddodiadol. Mae difrïo a brawychu yn cael effaith sylweddol ar ymgeiswyr. Bu cynnydd mewn aflonyddu a brawychu ymgeiswyr yn ogystal ag ymddygiad cyffredinol nad yw'n cyd-fynd o reidrwydd â'r Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, fel anfoesgarwch, symud placardiau etholiad ymaith, ac ati. Mae'r rhain yn creu galw ychwanegol am heddweision.

**3.5.** **Nodwyd** bod yr holl heddluoedd yng Nghymru yn paratoi ar gyfer cydlynu eu negeseuon mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE), a'r Comisiwn Etholiadol. Ni fydd y negeseuon hyn yn wleidyddol; yn hytrach, byddant yn ymwneud â'r ymddygiad cyffredinol a ddisgwylir ar adeg etholiadau.

**3.6.** **Nodwyd** bod Swyddogion Canlyniadau'n cytuno â'r materion a'r angen am negeseuon cyson. Fe allai seminarau cyn-etholiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau fod yn ddefnyddiol i drafod y materion hyn a datrysiadau posibl. Cynhelir y trafodaethau hyn yng ngweithdai'r BRhE yn yr hydref.

**Gweithredu:** Cydweithio â heddluoedd Cymru a'r Comisiwn Etholiadol ar gydlynu negeseuon ar blismona etholiad y Senedd 2026.

## 4. Trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2025/26

**4.1.** Cyflwynwyd eitem 4 ar lafar.

**4.2.** Rhoddodd Ann Koleth o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) drosolwg o'r trefniadau diogelwch ar gyfer 2026.

**4.3.** Trafodwyd eitem 4.

**4.4.** **Nodwyd** y bu cynnydd mewn aflonyddu, brawychu, ac amgylchedd ymgyrchu anodd yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**4.5.** **Nodwyd** bod y gweinidog diogelwch wedi cyfarfod â'i swyddog cyfatebol yn Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp rhyngweinidogol ar etholiadau a chofrestru wedi bod yn ystyried y mater hwn, ac mae'r Uned Diogelwch a Pharodrwydd Etholiadau ar y Cyd (JESP) yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru cyn etholiad 2026.

4.6. **Nodwyd** y gellir dechrau archebu lleoliadau cyfrif a phleidleisio bellach ac y bydd hynny'n helpu i gynllunio diogelwch. Gall materion fel dylunio gosodiad liniaru risgiau diogelwch. Gall cydweithwyr yn yr heddlu gynghori ar hyn hefyd yn rhan o gynllunio cyn pôl.

4.7. **Nodwyd** bod MHCLG yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i helpu'r pleidiau gwleidyddol i ddeall y safonau ymddygiad a ddisgwylir a pha gymorth y gallant ei roi i'w hymgeiswyr a'u hasiantiaid.

4.8. **Nodwyd** pan fydd etholiad y Senedd yn dibynnu ar wasanaethau digidol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, e.e. y wefan cofrestru i bleidleisio, y bydd y trefniadau monitro uwch arferol ar waith, ac y bydd arweiniad wedi'i ddiweddaru ar ddiogelwch yn cael ei rannu'n fuan.

## 5. Llythyr oddi wrth Gadeirydd y BRhE at y pedwar Prif Gwnstabl – i'w nodi

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 5.

5.2. **Nodwyd** bod y BRhE wedi anfon llythyr at y pedwar Prif Gwnstabl yng Nghymru.

## 6. Diweddariad ar y prosiect Platfform

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 6.

6.2. Trafodwyd y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP).

6.3. Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad statws y prosiect.

6.4. **Nodwyd** bod ymgysylltu wedi dechrau y tu hwnt i'r grŵp craidd, gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys elusennau hygyrchedd a phleidiau gwleidyddol. Dechreuwyd ymgysylltu â Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) hefyd, gyda thrafodaeth yng nghyfarfod cangen Cymru.

6.5. **Nodwyd** bod y broses gaffael wedi arwain at ddewis cyflenwr ac, yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd, bod y cyfnod segur wedi dod i ben bellach a bod y cyfarfod cyntaf gyda'r cyflenwr wedi cael ei gynnal. Disgwylir i'r contract gael ei lofnodi erbyn dechrau'r wythnos nesaf. Bydd cyfarfod yr wythnos nesaf yn cychwyn y prosiect gyda thrafodaeth ynglŷn â'i amserlen.

6.6. **Nodwyd** bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddechrau trafod y platfform a'r cyngor a'r cymorth seiberddiogelwch y gallant eu cynnig ar ei gyfer.

6.7. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gofrestr risgiau.

6.8. **Nodwyd** bod risg 2, yn ymwneud â newidiadau i'r gorchymyn cynnal etholiadau drafft ar gyfer etholiad y Senedd, wedi'i chau.

**6.9.** **Nodwyd** bod risg 13, yn ymwneud â chyflenwyr system rheoli etholiad (EMS), wedi'i chau.

**6.10.** Rhoddwyd ystyriaeth i ddogfen Sicrwydd Prosiect y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

**6.11.** **Nodwyd** bod cwmni o'r enw MIAA, sef cwmni archwilio allanol, wedi cael ei gyflogi i roi sicrwydd ynglŷn â'r prosiect. Cynhaliwyd cyfarfod i gytuno ar gwmpas y gwaith, a fydd yn cynnwys 4 pwynt gwirio ar hyd y prosiect.

**6.12.** Trafodwyd enw'r platfform.

**6.13.** **Nodwyd** bod enw'r platfform wedi cael ei drafod gyda'r grŵp cyfeirio yn bennaf. Ystyriwyd bod angen i'r enw fod yn fyr ac yn fachog, dweud wrth bleidleiswyr yn glir beth ydyw, a gweithio yn Gymraeg a Saesneg.

**6.14.** **Nodwyd** bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac nad yw'r ddau enw'n gyfieithiadau uniongyrchol o'i gilydd.

**6.15.** **Nodwyd** mai'r enwau argymelledig yw bwrwpleidlais.cymru a myvote.wales.

**6.16.** Penderfynwyd derbyn yr enwau fel y'u hargymhellwyd, yn amodol ar drafodaeth bellach â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â rhwyddineb dod o hyd i'r enw Cymraeg wrth chwilio ar-lein.

## 7. Diweddariad ar ddyfarnu contract

**7.1.** Cyflwynwyd eitem 7 ar lafar.

**7.2.** Trafodwyd dyfarnu'r contract i Storm ID, y disgwylir iddo ddigwydd yr wythnos nesaf.

## 8. Y Grŵp Cynllunio Etholiadau – y broses gyfarwyddiadau a chyfarwyddiadau drafft ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 8.

**8.2.** Trafodwyd yr adroddiad ar y broses gyfarwyddiadau.

**8.3.** **Nodwyd** bod 6 chyfarwyddyd drafft wedi cael eu paratoi, gyda'r nod o drefnu'r holl gyfarwyddiadau trwy gytundeb barn. Rhoddwyd cyngor cyfreithiol ar y cyfarwyddiadau. Mae'n ofynnol i'r BRhE ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ar yr holl gyfarwyddiadau, a chynigir bod hynny'n digwydd bellach.

**8.4.** **Gweithredu:** Cyflwyno'r cyfarwyddiadau drafft ar gyfer ymgynghori â'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol i ddechrau, a ddilynir gan ymgynghoriad statudol â'r Comisiwn Etholiadol, gan ddisgwyl i benderfyniad terfynol gael ei wneud yng nghyfarfod mis Hydref.

## 9. Fframwaith sicrwydd drafft y Grŵp Cynllunio Etholiadau

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 9.

**9.2.** **Nodwyd** y ceisir sicrwydd cynnar gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ynglŷn â chynllunio a chydlynu, trwy ffurflen ar-lein.

**9.3.** **Cytunodd** y Bwrdd ar y cwestiynau, yn amodol ar ychwanegu cwestiwn ynglŷn ag yswiriant, a bydd y rhain yn cael eu hanfon at Swyddogion Canlyniadau Etholiadol.

**9.4. Gweithredu:** Anfon y cwestiynau cymeradwy at Swyddogion Canlyniadau Etholaethol.

**10. Cofrestr risgiau etholiad y Senedd 2026 – i'w nodi**

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 10.

**10.2.** Trafodwyd y gofrestr risgiau.

**10.3.** **Nodwyd** bod sgoriau wedi cael eu hychwanegu at y graddfeydd risg, a bod deiliaid risg clir.

**10.4.** **Nodwyd** y gofrestr risgiau.

**10.5.** **Gweithredu:** Diweddaru'r gofrestr risgiau a'i chyflwyno i gyfarfodydd yn y dyfodol.

**11. Adborth o gyfarfodydd rhanbarthol â Swyddogion Canlyniadau**

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 11.

**11.2.** Trafodwyd y cyfarfodydd rhanbarthol â Swyddogion Canlyniadau.

**11.3.** **Nodwyd** bod Swyddogion Canlyniadau'n ceisio eglurder ynglŷn â dyraniadau ariannol gan Lywodraeth Cymru, ac y bydd cyfleoedd hyfforddi'n cael eu cynnig gan yr AEA.

**11.4.** Trafodwyd defnyddio TG mewn gorsafoedd pleidleisio, a bydd trafodaeth bellach yn cael ei chynnal yn y dyfodol.

**11.5.** **Gweithredu:** Y Cadeirydd i gyflwyno papur i gyfarfod yn y dyfodol ynglŷn â datblygiad proffesiynol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a rolau cysylltiedig.

**12. Rhaglen ddrafft ar gyfer gweithdai mis Hydref**

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 12.

**12.2.** **Nodwyd** bod yr agenda ar ffurf ddrafft, a cheisir adborth ar eitemau agenda. Mae dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer digwyddiad yng ngogledd a de Cymru, gyda'r un agenda ar gyfer y ddau.

**12.3.** **Cymeradwywyd** yr agenda ddrafft ar gyfer gweithdai'r hydref.

**12.4.** **Gweithredu:** Trafodaeth i'w chynnal gyda'r Comisiwn Etholiadol, a rhai pynciau ychwanegol i'w cynnwys ganddynt.

**13. Diweddariad ar gyfathrebu**

**13.1.** Cyflwynwyd eitem 13 ar lafar.

**13.2.** **Nodwyd** bod Bethan Price wedi ymuno â grŵp cyfathrebu Senedd 2026. Mae Comisiwn y Senedd wedi cadarnhau bod ganddynt gyllideb o £150,000 i hyrwyddo etholiad y Senedd. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynhyrchu adnoddau addysgol i bobl ifanc ar etholiad y Senedd a diwygiadau.

**13.3.** **Nodwyd** bod rhai Awdurdodau Lleol yn cynhyrchu taflenni ar yr etholiad i'w dosbarthu yn ystod y canfasiad blynyddol. Mae Comisiwn y Senedd hefyd wedi cynhyrchu taflen y gellir ei haddasu at y diben hwn.

**13.4.** **Gweithredu:** Trafod taflenni gyda'r AEA i sicrhau y gellir eu dosbarthu i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol.

**13.5.** **Gweithredu:** Cynnal trafodaeth fanwl yng nghyfarfod mis Hydref ynglŷn â gwaith cyfathrebu y gallai fod angen i'r BRhE ymgymryd ag ef yn uniongyrchol.

**14. Diweddariad ar y Gymraeg**

**14.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 14.

**14.2.** **Nodwyd** y byddai'n ddefnyddiol i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol pe gellid amlygu pa wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd, ac amlygu bylchau yn y ddarpariaeth.

**14.3.** **Nodwyd** bod y rhestr termau wedi cael ei thrafod, ac amlygwyd bod angen ei diweddaru o ganlyniad i ddiwygiadau. Mae cyfieithwyr y Comisiwn Etholiadol wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar sicrhau cyfieithiad cywir o'r rhestr termau.

**14.4.** **Gweithredu:** Archwilio a diweddaru'r rhestr termau.

**14.5.** **Gweithredu:** Y BRhE i amlygu adnoddau nad ydynt ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd a sicrhau eu bod yn cael eu cyfieithu.

**15. Diweddariadau Asiantaethau – Llywodraeth Cymru**

**15.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 15.

**15.2.** Trafodwyd eitem 15.

**15.3.** **Nodwyd** bod y gorchymyn cynnal etholiadau wedi cael ei gymeradwyo, yn ogystal â'r gorchymyn sy'n creu'r etholaethau newydd.

**15.4.** **Nodwyd** bod y gorchymyn anghymhwyso wedi bod yn destun ymgynghoriad, a chafwyd 19 o ymatebion. Disgwylir iddo gael ei gyflwyno ym mis Medi. Bydd y gorchymyn taliadau'n destun ymgynghoriad yn yr hydref.

**15.5.** **Nodwyd** y gofynnwyd i'r grŵp cynllunio etholiadau ymateb i Lywodraeth Cymru ynglŷn â deddfwriaeth adalw bosibl.

**15.6.** **Gweithredu:** Y grŵp cynllunio etholiadau i ymateb i Lywodraeth Cymru ynglŷn ag adalw erbyn diwedd mis Awst.

## 16. Diweddariadau Asiantaethau – Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**16.1.** Cyflwynwyd eitem 16 ar lafar.

**16.2.** **Nodwyd** ei bod yn debygol y bydd gweinidog cyfrifol newydd yn y dyfodol agos.

**16.3.** **Nodwyd** bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi ei strategaeth ar etholiadau, gyda'r nod o wneud etholiadau'n fwy gwydn. Mae'r strategaeth yn cynnwys materion fel dyddiadau amserlen ar geisiadau pleidleisio drwy'r post, enwebiadau ac ati. Yn dibynnu ar yr amser a ddyrennir yn y senedd, fe allai bil gael ei gyflwyno i weithredu'r strategaeth.

**16.4.** **Gweithredu:** Cyflwyno strategaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyfarfod yr hydref i'w thrafod.

## 17. Diweddariadau Asiantaethau – Y Comisiwn Etholiadol

**17.1.** Cyflwynwyd eitem 17 ar lafar.

**17.2.** **Nodwyd** bod yr arweiniad i ymgeiswyr ac asiantiaid wedi cael ei gwblhau'n derfynol, ei fod yn cael ei gyfieithu, ac y bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi.

**17.3.** **Nodwyd** y disgwylir i'r arweiniad i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd.

**17.4.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi lansio ei ymgynghoriad statudol ar arweiniad wedi'i ddiweddaru i Swyddogion Canlyniadau ar gymorth i bleidleisio ar gyfer pleidleiswyr anabl.

**17.5.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol yn datblygu adnoddau addysg newydd i ysgolion, a'i fod yn gobeithio y byddant yn barod erbyn diwedd mis Medi.

**17.6.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi creu adnoddau i gartrefi gofal hefyd, i gynorthwyo pobl sy'n byw ynddynt i bleidleisio, ac i roi arweiniad i staff cartrefi gofal ar gynorthwyo i bleidleisio.

**17.7.** **Gweithredu:** Y BRhE i ymateb i'r ymgynghoriad cyn 26 Hydref.

**17.8.** **Gweithredu:** Y BRhE i gynorthwyo'r Comisiwn Etholiadol i sicrhau bod yr adnoddau addysg yn cyrraedd ysgolion.

## 18. Diweddariadau Asiantaethau – Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)

**18.1.** Nid oedd unrhyw un o'r AEA ar gael i roi diweddariad.

**18.2.** **Gweithredu:** Y BRhE i gysylltu â'r AEA i gael diweddariad ysgrifenedig.

## 19. Y gofrestr risgiau strategol a'r blaengynllun gwaith

**19.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 19.

**19.2.** **Nodwyd** y bydd y gofrestr risgiau'n cael ei thrafod ym mis Hydref.

**19.3.** **Nodwyd** y gofrestr risgiau strategol a'r blaengynllun gwaith.

## 20. Unrhyw Fater Arall

**20.1.** Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**20.2.** Diolchodd y Cadeirydd i'r mynychwyr am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 3 Hydref 2025

**CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 03 HYDREF 2025 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS**

**Yn bresennol:** Karen Jones (Cadeirydd); Eifion Evans (Dirprwy Gadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Beverly Owen (Aelod); Paul Orders (Aelod); Martin Nicholls (Aelod)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd)

**Gwahoddedigion:** Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Ella Griffiths-Downing (y Comisiwn Etholiadol); Michael Kay (Llywodraeth Cymru), Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion); Paul Docker (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)), William Whiteley (Llywodraeth Cymru); Sarah Ling (Ymgynghorydd); Simon Belcher (Heddlu De Cymru); Elan Closs Stephens (y Comisiwn Etholiadol); Rhys George (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)); Becca Crosier (MHCLG); Richard Harris (AEA)

**Ymddiheuriadau:** Neal Cockerton (Aelod); Clare Sims (AEA), Anna Daniel (Comisiwn y Senedd)

**Amser Dechrau: 10:01**
**Amser Gorffen: 12:08**

## 1. Cyflwyniad gan Heddlu De Cymru

**1.1.** Cyn i’r agenda ffurfiol ddechrau, cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar sut mae Heddlu De Cymru yn sicrhau unplygrwydd etholiadol. Nodwyd y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi yn y gweithdai a gynhelir ym mis Hydref.

## 2. Datganiadau Buddiannau

**2.1.** Dim.

## 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Awst.

## 4. Cofnod Camau Gweithredu

**4.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 3, gan **nodi** bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi cael eu cwblhau, bod rhai camau i'w cwblhau'n derfynol yn y cyfarfod hwn, a bod eraill wedi'u cynnwys yn y blaengynllun gwaith.

## 5. Cofrestr Risgiau Strategol

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 4.

**5.2.** **Nodwyd** bod Risg 6 ar gyfer y platfform yn goch oherwydd bod angen gwneud gwaith gyda'r cyflenwyr systemau rheoli etholiadol (EMS), y mae agweddau'r prosiect yn dibynnu arnynt.

**5.3.** Cytunwyd ar y gofrestr risgiau strategol, a bydd yn cael ei chodi'n chwarterol i roi diweddariadau i'r Bwrdd.

## 6. Diweddariad y Comisiwn Etholiadol ar gynlluniau ar gyfer yr etholiad

**6.1.** Cyflwynwyd eitem 5 ar lafar gan y Comisiwn Etholiadol.

**6.2.** **Nodwyd** bod gwaith yn cael ei wneud ar gyfer cyrff rheoleiddiedig, gwaith gweinyddu etholiadol a gwaith ymgysylltu.

**6.3.** **Nodwyd** bod canllawiau wedi'u diweddaru wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid. Mae canllawiau animeiddiedig yn cael eu cwblhau i helpu i gwblhau papurau enwebu.

**6.4.** **Nodwyd** bod deunydd yn cael ei ddarparu i heddluoedd i'w rannu ar gyfryngau cymdeithasol ynglŷn ag aflonyddu ymgeiswyr. Bydd taflen ffeithiau sy'n amlinellu mesurau diogelwch ar gyfer ymgeiswyr ac ymgyrchwyr yn cael ei chylchredeg, hefyd.

**6.5.** **Nodwyd** y bydd Panel Pleidiau'r Senedd yn cael ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth â phleidiau mwy.

**6.6.** **Nodwyd** bod yr arweiniad i Swyddogion Canlyniadau bron â'i gwblhau ac y caiff ei gyhoeddi yng nghanol mis Tachwedd. Bydd sgriptiau templed ar gyfer cyhoeddi canlyniadau cyfrif y Senedd yn cael eu darparu a'u diweddaru yn unol â'r system bleidleisio newydd. Bydd llawlyfrau'n cael eu darparu ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a bydd dolen ym mis Rhagfyr er mwyn i Reolwyr Gwasanaethu Etholiadol (ESM) eu harchebu.

**6.7.** **Nodwyd** bod yr arweiniad i Swyddogion Canlyniadau bellach yn ymdrin â chyflwyno enwebiadau'n electronig, ynghyd â newidiadau eraill, a'i fod yn cyfeirio at y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) a'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP), drwyddo draw.

**6.8.** **Nodwyd** bod yr arweiniad i Swyddogion Canlyniadau ar hygyrchedd yn cael ei ddiweddaru. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo sy'n ceisio safbwyntiau tan 26 Hydref a bydd yr arweiniad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd 2025.

**6.9.** **Nodwyd** y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cysylltu â Swyddogion Canlyniadau ym mis Rhagfyr a mis Ionawr i gasglu gwybodaeth reoli er mwyn ffurfio darlun clir o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cynnal polau ledled Cymru.

**6.10.** **Nodwyd** bod ymgyrch safonol i gofrestru pleidleiswyr yn cael ei chynnal cyn yr etholiad o fis Mawrth hyd at y dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

**6.11.** **Nodwyd** bod llyfryn gwybodaeth i aelwydydd yn cael ei lunio sy'n cynnwys gwybodaeth i bleidleiswyr ac y dylai gael ei rannu â'r Bwrdd yn ystod y pythefnos nesaf ar gyfer adborth. Bwriedir ei ddosbarthu yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 23 Mawrth.

**6.12.** **Nodwyd** bod gwaith yn cael ei wneud gyda'r Senedd a'r Comisiynydd Plant i greu adnoddau addysg newydd, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi'r wythnos nesaf.

**6.13.** **Nodwyd** y bydd sesiwn gyfathrebu ehangach yn cael ei chyflwyno yng ngweithdai'r BRhE gyda Chomisiwn y Senedd.

**6.14.** **Nodwyd** y bydd rhaglen hyfforddi ar gael ar gyfer ymgeiswyr annibynnol.

**6.15.** **Nodwyd** bod cyfle ar gael i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol drefnu bod y Comisiwn Etholiadol yn ymwneud â sesiynau briffio lleol, ac y dylai hyn gael ei amlygu yn y deunydd cyfathrebu gan y Bwrdd.

## 7. Y Grŵp Cynllunio Etholiadau – diweddariad a materion i'w hystyried

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 6.

**7.2.** **Nodwyd** bod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) wedi mynegi rhywfaint o bryder ynglŷn â bylchiad llinellau ar bapurau pleidleisio a materion hygyrchedd posibl. Mae'r gorchymyn cynnal etholiadau'n mynnu bod papurau pleidleisio'n cael eu hargraffu gyda 'disgyniad' o 2.5cm o leiaf.

**7.3.** **Nodwyd** bod y Grŵp Cynllunio Etholiadau wedi ystyried rhinweddau disgyniad 2.5cm a 3.5cm, gan nodi y byddai'r olaf yn cynhyrchu papurau pleidleisio rhy fawr yn dibynnu ar nifer y pleidiau/ymgeiswyr sy'n sefyll ac y gallai arwain at gostau argraffu uwch.

**7.4.** **Nodwyd** y bydd angen trafod gyda chyflenwyr dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol (TVD) i sicrhau eu bod ar gael ar gyfer gwahanol feintiau, yn dibynnu ar ba benderfyniadau a wneir.

**7.5.** **Nodwyd** mai uchafswm nifer yr ymgeiswyr y gellir eu cynnwys ar bapur pleidleisio safonol â disgyniad 35mm yw 11, a'r uchafswm ar bapur pleidleisio â disgyniad 25mm yw 16.

**7.6.** **Nodwyd** bod yr AEA wedi cynnal gweminar gyda'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) a oedd yn gryf o blaid annog defnyddio darllenwyr McGonagall mewn gorsafoedd pleidleisio.

**7.7.** Nodwyd na fyddai'r Bwrdd yn rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â hyn. Yn hytrach, dylid ei amlygu fel rhywbeth i'w ystyried yn lleol ar gam cynnar a dylid cyfeirio Swyddogion Canlyniadau at y gweithdy i ddod, y byddai RNIB Cymru yn ei fynychu. **Cytunwyd** i wneud hyn.

**7.8.** **Nodwyd** bod Llywodraeth Cymru (LlC) yn ystyried costau ar gyfer swîp pleidleisiau drwy'r post o ganolfannau'r Post Brenhinol ac y gallai hyn gynnwys nifer o ganolfannau post o ystyried maint rhai etholaethau. Trafodwyd naill ai caniatáu i hyn gael ei gytuno'n lleol ac adennill y costau neu wneud trefniant mwy canolog rhwng LlC a'r Post Brenhinol.

**7.9.** **Nodwyd** pryderon y gallai Swyddogion Canlyniadau Etholaethol sy'n cynnal cyfrif lleol fod dan bwysau i ddarparu cyfansymiau lleol. Cytunwyd os byddant yn cynnal cyfrif lleol, y dylai hynny fod ar ôl iddynt ddatgan y canlyniad cyffredinol. **Nodwyd** bod y Bwrdd yn ceisio gwybodaeth gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol am drefniadau cyfrif.

**7.10.** **Nodwyd** na fydd pleidleisiau drwy'r post yn cael eu cydgyfeirio cyn etholiad y Senedd yn 2026.

## 8. Cofrestr Risgiau Etholiadau'r Senedd 2026

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 7.

**8.2.** **Nodwyd** bod Risg 2 ar hygyrchedd wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r trafodaethau ynglŷn â bylchiad llinellau ar bapurau pleidleisio a hygyrchedd. Bydd Risg 1 yn cael ei chau pan fydd y cyfarwyddiadau wedi'u cytuno a bydd y Grŵp Cynllunio Etholiadau'n rhoi ystyriaeth bellach i'r gofrestr risgiau yn ei gyfarfod nesaf, ar ôl i'r gweithdai gael eu cynnal.

## 9. Cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 8.

**9.2.** **Nodwyd** mai'r prif fater i'w ystyried gan y Bwrdd yw amseru a dilysu'r cyfrif.

**9.3.** **Nodwyd** nad oedd gan y Comisiwn Etholiadol sylwadau i'w gwneud yn ei ymateb i'r ymgynghoriad statudol ar y cyfarwyddiadau.

**9.4.** **Nodwyd** y bu adborth gan ddau Swyddog Canlyniadau Etholaethol a'u timau sy'n dymuno cynnal y broses ddilysu dros nos er mwyn i'r cyfrif ddigwydd yn y bore.

**9.5.** Trafodwyd yr hyblygrwydd yn y cyfarwyddiadau i ganiatáu hyn. Ceir pryder bod hyn yn ychwanegu dryswch ymhlith etholaethau ac y byddai'n well cael cysondeb ledled Cymru.

**9.6.** **Nodwyd**, oherwydd daearyddiaeth rhai o'r etholaethau mwy o faint a'r ffaith bod ffiniau'n croesi, fe allai fod yn fwy effeithiol i staff ddilysu blychau dros nos mewn rhai etholaethau. **Cytunwyd** i ddiwygio'r cyfarwyddyd i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd.

**9.7.** **Gweithredu: Diwygio'r cyfarwyddiadau fel y cytunwyd a'u dosbarthu i Swyddogion Canlyniadau.**

## 10. Adborth o'r cyfarfod rhanbarthol â swyddogion canlyniadau yng Ngogledd Cymru

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 9.

**10.2.** **Nodwyd** bod cefnogaeth i'r fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus.

**10.3.** **Nodwyd** mai'r prif fater a gododd oedd dull cyson o fynd i'r afael â'r materion ymgyrchu sy'n debygol o ddod i'r amlwg ledled Cymru.

## 11. Diweddariad ar Brosiect y Platfform

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 10.

**11.2.** **Nodwyd** bod y prosiect yn mynd rhagddo'n dda, y bu'n cynefino gyda Storm ID a'i fod yn y cam darganfod ar hyn o bryd. Cynhaliwyd cyfweliadau â gweinyddwyr etholiadol, pleidleiswyr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg a staff Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC).

**11.3.** **Nodwyd** bod y Clwb Democratiaeth yn gweithio gyda'r platfform i helpu i ddarparu'r offeryn chwilio am orsaf bleidleisio.

**11.4.** **Nodwyd** nad yw'r enw parth y cytunwyd arno'n flaenorol ar gyfer y wefan Saesneg ar gael mwyach a bod yr enw parth Cymraeg wedi cael ei sicrhau. **Cytunwyd** ar yr enw parth Saesneg amgen 'vote.wales'.

**11.5.** **Nodwyd** bod y pwynt gwirio cyntaf ar gyfer yr archwiliad allanol wedi'i gwblhau, a oedd yn edrych ar drefniadau llywodraethu a manyleb dechnegol y prosiect.

**11.6.** **Nodwyd** bod angen cyfarwyddiadau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau i gefnogi'r broses o weithredu'r WEIP. Cynigiwyd bod y cyfarwyddiadau drafft ar gyfer y platfform yn cael eu rhoi i Swyddogion Canlyniadau yn gyntaf ar gyfer ymgynghoriad anffurfiol ac yna'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer yr ymgynghoriad statudol. Gan fod y cyfarwyddiadau'n ymwneud â rhannu data, ymgynghorir â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd.

**11.7.** Trafodwyd Cyfarwyddyd 3 a chydsyniad ymgeiswyr a phleidiau i ddarparu gwybodaeth bersonol. Gan fod tasg gyhoeddus a rhwymedigaeth statudol yn cael eu defnyddio fel y sail gyfreithlon, nid oes angen cydsyniad. Mae pryder ynglŷn â'r risg a osodir ar Swyddogion Canlyniadau oherwydd nhw yw'r rhai sy'n rhannu'r data hwnnw. **Nodwyd** bod y data sy'n cael ei ddefnyddio eisoes wedi'i gyhoeddi ac ar gael yn gyhoeddus.

**11.8.** **Cytunwyd** i gyflwyno'r cyfarwyddiadau hyn ar gyfer ymgynghoriad.

**11.9.** **Nodwyd** mai darparwyr EMS yw'r risg uchaf ac un opsiwn i leihau'r risg yw gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau'r broses gaffael yn gysylltiedig â'r prif newidiadau i'r EMS ar gyfer y system bleidleisio, y mae'n rhaid eu cwblhau cyn allfudo'r dyluniad.

**12. Ymchwil Defnyddwyr**

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 11.

**12.2.** **Nodwyd** bod hyn i'w gynnwys yn y cynllun ymchwil ehangach sy'n ymwneud â'r BRhE a'r platfform.

**12.3.** **Nodwyd** y bydd y gwaith hwn yn rhan o'r adroddiad a gyflwynir i'r Senedd ar effeithiolrwydd y platfform a gwaith y BRhE yn y dyfodol.

**12.4.** **Nodwyd** y bydd yn costio tua £10,000.

**12.5.** **Nodwyd** y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud.

**13. Diweddariad ar gyfathrebu**

**13.1.** Cyflwynwyd eitem 12 ar lafar.

**13.2.** **Nodwyd** bod Grŵp Cyfathrebu'r Senedd yn cyfarfod bob deufis i sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu ac i ganfod unrhyw fylchau yn y cynlluniau cyfathrebu. **Nodwyd** y bydd cyflwyniad ar gyfathrebu yn y gweithdai i ddod ac y gellir rhoi diweddariadau ychwanegol yng nghyfarfod nesaf y BRhE.

**14. Y Gymraeg**

**14.1.** Cyflwynwyd eitem 13 ar lafar.

**14.2.** **Nodwyd** bod cyflwyniad ar y Gymraeg yn cael ei baratoi ar gyfer y gweithdy ym mis Hydref ac y bydd trafodaeth bellach gyda Swyddogion Canlyniadau Etholaethol.

**14.3.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi llunio rhestr termau etholiadol ac y bydd y sleidiau'n cyfeirio ati.

**14.4.** **Nodwyd**, gan fod yr etholiad yn cael ei gynnal fel proses ddwyieithog, yr awgrymir cyhoeddi'r datganiad yn Gymraeg a Saesneg bob yn ail i sicrhau eglurder ac annog Swyddogion Canlyniadau Etholaethol i sicrhau bod siaradwr Cymraeg rhugl yn goruchwylio'r ynganiadau Cymraeg.

**14.5.** **Nodwyd** bod bathodynnau'n cael eu hawgrymu ar gyfer siaradwyr Cymraeg mewn gorsafoedd pleidleisio fel bod pleidleiswyr yn cael eu cyfeirio at y bobl iawn.

## 15. Fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus

**15.1.** Gohiriwyd eitem 14 tan y cyfarfod nesaf.

## 16. Diweddariadau Asiantaethau – Llywodraeth Cymru

**16.1.** Cyflwynwyd eitem 15 ar lafar.

**16.2.** **Nodwyd** bod LlC yn bwriadu ymgynghori ar y gorchymyn taliadau ar gyfer y mis nesaf.

## 17. Diweddariadau Asiantaethau – Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**17.1.** Cyflwynir eitem 16 drwy e-bost oherwydd diffyg amser.

## 18. Diweddariadau Asiantaethau – Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

**18.1.** Cyflwynir eitem 17 drwy e-bost oherwydd diffyg amser.

## 19. Unrhyw Fater Arall

**19.1.** Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 5 Rhagfyr 2025

# CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 5 RHAGFYR 2025 TRWY MICROSOFT TEAMS**

**Yn bresennol:** Karen Jones (Cadeirydd); Eifion Evans (Dirprwy Gadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Beverly Owen (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Andrew Wilkins (yn dirprwyo ar gyfer Paul Orders);

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Jo Nelson (Uwch Reolwr Etholiadau); Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd)

**Gwahoddedigion:** Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Elan Carter (y Comisiwn Etholiadol); Michael Kay (Llywodraeth Cymru); Mathew Xerri (Llywodraeth Cymru); Katie Welch (Llywodraeth Cymru); Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion); Paul Docker (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)), William Whiteley (Llywodraeth Cymru); Sarah Ling (Ymgynghorydd); Rhys George (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)); Becca Crosier (MHCLG); Richard Harris (AEA); Anna Daniel (Comisiwn y Senedd); Dave Beecham (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CCBC)); Ed Edmunds (CCBC); Clare Sim (AEA); Elan Closs Stephens (y Comisiwn Etholiadol)

**Ymddiheuriadau:** Paula Walters (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru); Paul Orders (Aelod); Rhydian Thomas (y Comisiwn Etholiadol)

**Amser Dechrau: 10:02**
**Amser Gorffen: 12:09**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Dim.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**2.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref.

**2.2.** **GWEITHREDU:** Newid dyddiad anghywir yn y cofnodion blaenorol.

**3. Cofnod Camau Gweithredu**

**3.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 3. **Nodwyd** bod y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau (mewn gwyn) wedi'u cynnwys yn y flaenraglen waith.

## 4. Ôl-drafodaeth ynglŷn ag is-etholiad Caerffili

**4.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 4.

**4.2.** Rhoddodd Prif Weithredwr a Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Caerffili ddiweddariad llafar ynglŷn â'r is-etholiad ym mis Hydref.

**4.3.** **Nodwyd** bod y cyfnod byr yn anhawster allweddol.

**4.4.** **Nodwyd** y penderfynwyd atal cyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor dros dro yn ystod y cyfnod hwn o ganlyniad i'r amgylchiadau arbennig.

**4.5.** **Nodwyd** bod sesiynau briffio ymgeiswyr ac asiantiaid wedi'u teilwra i esbonio rôl asiantiaid pôl gan fod mwy ohonynt.

**4.6.** **Nodwyd** bod cymorth gweithredol cadarnhaol gan yr heddlu ac y bu mwy o heddweision ar gael iddynt ar y noson gyfrif.

**4.7.** **Nodwyd** y bu nifer fach o gwynion yn unig. Ar y cyfan, roedd y Swyddog Canlyniadau a'i dîm wedi cael adborth cadarnhaol ynglŷn â'r ffordd y cynhaliwyd y pôl.

**4.8.** **Nodwyd** bod agweddau gwleidyddol ar yr ymgyrch wedi arwain at anawsterau, fel uwch aelodau pleidiau'n ymweld â gorsafoedd pleidleisio heb awdurdodiad. Amlygwyd hyn fel rhywbeth i feddwl amdano ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

**4.9.** **Nodwyd** bod dryswch ymhlith pleidleiswyr ynglŷn â ffiniau a phwy oedd yn cael pleidleisio yn yr is-etholiad. Gwaethygwyd hyn gan ymgeiswyr a oedd yn dosbarthu taflenni y tu allan i'r etholaeth.

**4.10.** **Nodwyd** bod dryswch ymhlith rhai pleidleiswyr ynglŷn â phrawf adnabod pleidleiswyr a ph'un a oedd ei angen ar gyfer yr is-etholiad.

**4.11.** **Nodwyd** bod dryswch ymhlith etholwyr a oedd wedi cael pleidlais drwy'r post a gedwir yn ôl ond nid pleidlais drwy'r post ddatganoledig.

**4.12.** **Nodwyd** bod 83 o gwmnïau cyfryngau yn y cyfrif.

**4.13.** **Nodwyd** bod Dirprwy Swyddogion Canlyniadau wedi sicrhau cysondeb yn gysylltiedig â phleidleisiau amheus.

**4.14.** **Nodwyd** bod is-etholiad arall yr wythnos nesaf ac y bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhoi ar waith.

**4.15.** Trafodwyd aflonyddu ymgeiswyr eraill neu etholwyr a **nodwyd** nad oedd hyn wedi digwydd ar y lefel a ddisgwyliwyd.

**4.16.** Trafodwyd defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod yr ymgyrch.

**GWEITHREDU –** llunio nodyn ynglŷn â'r materion yn yr is-etholiad i'w gylchredeg ymhlith Swyddogion Canlyniadau

**5. Y Grŵp Cynllunio Etholiadau – diweddariad a materion i'w hystyried**

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Tachwedd 2025.

**5.2.** **Nodwyd** bod y Grŵp Cynllunio Etholiadau wedi cyfarfod ar 6 Tachwedd.

**5.3.** **Nodwyd** y bu trafodaeth ynglŷn â gweithdai mis Hydref a oedd yn cynnwys adborth cadarnhaol, yn enwedig ar gyflwyniad y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB). Trafodwyd cynnal y gweithdai eto yn y dyfodol.

**5.4.** **Nodwyd** bod y grŵp wedi trafod y fframwaith sicrwydd arfaethedig, gan gynnwys yr holiadur drafft a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE). **Nodwyd** y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cynnal ei arolwg Swyddogion Canlyniadau ym mis Ionawr ac y bydd yn sicrhau nad oes gorgyffwrdd. **Nodwyd** y bydd y fframwaith sicrwydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Bwrdd mis Chwefror ac y bydd yr holiadur yn cael ei ddosbarthu wedi hynny.

**5.5.** **Nodwyd** bod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) wedi cylchredeg taenlen D'Hondt yn dilyn yr Hyfforddiant Cyfrif a gynhaliwyd ddoe.

**5.6.** **Nodwyd** bod trafodaethau hefyd wedi'u cynnal ar gyflwyno'r etholiad yn ddwyieithog a dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol neu ddulliau tebyg o gynorthwyo pleidleiswyr dall ac sy'n gweld yn rhannol.

**5.7.** Trafodwyd amseru'r arweiniad a phryd y caiff ei gynhyrchu.

**6. Gwerthuso gweithdy mis Hydref a chamau gweithredu**

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 6.

**6.2.** **Nodwyd** bod yr heddlu a'r Comisiwn Etholiadol wedi cytuno i fynychu sesiynau briffio ymgeiswyr ac asiantiaid y gall Swyddogion Canlyniadau eu codi.

**6.3.** **Cytunwyd** i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn.

## 7. Sicrwydd ar gynllunio cynnar

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 7.

**7.2.** **Nodwyd** bod holiadur wedi cael ei anfon at Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'u timau ynghyd â thaenlen Excel.

**7.3.** **Nodwyd** bod mwyafrif yr etholaethau wedi'i gwblhau a bod 3 etholaeth ar ôl.

**7.4.** **Nodwyd** bod yr ymatebion yn dangos bod Swyddogion Canlyniadau Etholaethol wedi paratoi'n dda, at ei gilydd.

**7.5.** **Nodwyd** bod y rhan fwyaf o etholaethau'n cynnal cyfrif canolog, a bod ambell un heb benderfynu. **Nodwyd** y bydd gan Geredigion a Sir Benfro ganolfannau cyfrif ar wahân ar gyfer etholaeth Ceredigion Penfro.

**7.6.** **Nodwyd** bod Dirprwy Swyddogion Canlyniadau wedi'u penodi mewn 5 etholaeth.

**7.7.** **Nodwyd** y bydd dull hybrid mewn 3 etholaeth lle y bydd rhai ardaloedd yn defnyddio cofrestrau electronig ac y bydd ardaloedd eraill yn defnyddio cofrestrau papur.

**GWEITHREDU** – cysylltu â'r awdurdodau nad oeddent wedi ymateb

## 8. Cofrestr risgiau etholiadau'r Senedd 2026

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 8.

**8.2.** **Nodwyd** bod Risg 1 wedi cael ei chau ar ôl cyhoeddi cyfarwyddiadau ar amseru'r cyfrif.

**8.3.** **Nodwyd** bod camau gweithredu lliniarol ychwanegol o'r gweithdai wedi cael eu codi.

**8.4.** **Nodwyd**, o ran Risg 3, y bydd cynrychiolydd o'r Post Brenhinol yn mynychu cyfarfod mis Chwefror a bod gwahoddiad agored i bobl gysylltu.

**8.5.** **Nodwyd** bod un risg newydd wedi'i hychwanegu ynglŷn â Phontydd ac y bydd rhanddeiliaid yn cael eu dwyn ynghyd i drafod y sefyllfa ddeddfwriaethol

a rolau a chyfrifoldebau.

**8.6.** Trafodwyd cydgyfeirio pleidleisiau drwy'r post a'r angen i ychwanegu hyn fel risg o ystyried y materion a ddaeth i'r amlwg yn is-etholiad Caerffili.

**8.7.** **GWEITHREDU:** MP i ychwanegu risg at y gofrestr risgiau.

## 9. Fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 9.

**9.2.** **Nodwyd** y bydd hyn yn cael ei gyflwyno eto yr haf nesaf er mwyn peidio â tharfu ar neb yn ystod cyfnod prysur yr etholiad.

**9.3.** **Cytunwyd** ar gwmpas gwaith ar gyfer y prosiect ymchwil.

## 10. Diweddariad ar Brosiect y Platfform

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 10.

**10.2.** **Nodwyd** bod y cam darganfod wedi'i gwblhau a'i fod bellach ar gam alffa/beta cyfunol.

**10.3.** **Nodwyd** y cynhaliwyd y sesiwn dangos a dweud gyntaf gyda'r cyflenwr ddoe, a ddangosodd ochr gefn y platfform.

**10.4.** **Nodwyd** bod profion coeden wedi'u cwblhau gyda phleidleiswyr ac y bydd ail gyfres o brofion yn cael ei chynnal yr wythnos nesaf.

**10.5.** **Nodwyd** bod y cynllun profi cychwynnol gyda Storm wedi cael ei gytuno, gan gynnwys teithiau ymgeiswyr, teithiau pleidleiswyr a theithiau gweinyddwyr etholiadol.

**10.6.** **Nodwyd** bod proses gaffael yn mynd rhagddi ar gyfer cyflenwr annibynnol a gymeradwywyd gan y llywodraeth i gynnal profion diogelwch.

**10.7.** **Nodwyd** bod arweiniad wedi cael ei lunio ar gyfer gweinyddwyr etholiadol ac ymgeiswyr ac asiantiaid.

**10.8.** **Nodwyd** bod dau ddigwyddiad ymgysylltu wedi'u trefnu y mis hwn, un ar gyfer pleidiau gwleidyddol a'r llall ar gyfer gweinyddwyr etholiadol.

**10.9.** **Nodwyd** bod yr ymgynghoriad ar y cyfarwyddiadau drafft wedi dod i ben. **Nodwyd** bod ymgynghoriad â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â'r ymgynghoriadau â Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn Etholiadol.

**10.10.** **Nodwyd** bod adolygiad cyfreithiol wedi'i gynnal ar y cyfarwyddiadau.

**10.11.** **Cytunwyd** ar y cyfarwyddiadau drafft.

**10.12.** **Nodwyd** bod dwy risg lefel uchel yn gysylltiedig â'r platfform. Risg 2 yw'r ddibyniaeth ar gyflenwyr systemau rheoli etholiadol (EMS) i gyflenwi data ar gyfer y platfform.

**10.13.** Trafodwyd yr opsiynau wrth gefn os na fydd un neu fwy o'r cyflenwyr yn darparu o fewn y graddfeydd amser. **Nodwyd** bod y rhain yn caniatáu ar gyfer bodloni'r gofynion cyfreithiol.

**10.14.** **Nodwyd** bod trefn flaenoriaeth yn gysylltiedig â'r cynlluniau wrth gefn, gan fod y mesurau lliniaru hyn yn cael yr effaith leiaf ar ymgeiswyr a phleidiau, yna gweinyddwyr etholiadol ac yna staff Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC).

**10.15.** **Nodwyd** bod un o'r cyflenwyr wedi gorffen y gwaith ac anfon prawf allgludo.

**10.16.** **Nodwyd** y bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu ym mis Ionawr i drafod yr opsiynau wrth gefn gyda gweinyddwyr etholiadol.

**10.17.** Cytunodd y Bwrdd os yw'r tri darparwr EMS dan gontract ac yn datblygu'n dda, y gellir lleihau'r risg gyffredinol ar gyfer y prosiect i Oren.

## 11. Diweddariad ar gyfathrebu a marchnata

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 11.

**11.2.** **Nodwyd**, ers i'r drafft gael ei greu, bod opsiwn rhatach ar gael bellach ar gyfer hysbysebu gydag ITV. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio Sky ac ITV.

**11.3.** **Nodwyd** bod ychwanegiad newydd at y drafft yn cynnwys hysbysebu wrth ymyl y maes yn Stadiwm y Principality.

**11.4.** **Nodwyd** bod gwaith ymchwil ychwanegol yn cael ei wneud i ganfod pa ddemograffeg y mae angen ei thargedu'n fwy.

**11.5.** **Cytunwyd** ar y cynllun.

**11.6.** Trafodwyd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a pharatoi adroddiad ar y data sy'n gysylltiedig. **Nodwyd** bod hysbysebu am dâl yn golygu y bydd data ar gael am bwy sydd wedi defnyddio'r hysbyseb i gyrchu'r platfform.

**11.7.** **Nodwyd** y bydd aelodau'r Bwrdd yn cael copi o ddatganiadau i'r wasg a anfonir.

**11.8.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r brandio a'r logo ar gyfer y Platfform.

**11.9.** **Nodwyd** na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**11.10.** **Nodwyd** mai nod y logo dyfrnod yw cynyddu adnabyddiaeth o enw'r Platfform cyn gynted â phosibl.

**11.11.** **Nodwyd** y dewiswyd y lliwiau i osgoi graddlwyd ac i osgoi lliwiau a ddefnyddir gan bleidiau gwleidyddol.

**11.12.** **Cytunodd** y Bwrdd ar y logo.

## 12. Diweddariad ar gyfathrebu

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 12

**12.2.** **Nodwyd** bod Grŵp Cyfathrebu'r Senedd wedi cyfarfod ym mis Tachwedd.

**12.3.** **Nodwyd** bod dogfen wedi cael ei llunio fel y gellir casglu cynlluniau Comisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol a CDFfC ynghyd mewn un man i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro na bylchau. Caiff ei diweddaru bob wythnos.

**12.4.** Nodwyd y bydd gweminar yn cael ei chynnal yn y dyfodol agos ar gyfer swyddogion cyfathrebu cynghorau a'r Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol. Bydd y cynllun cyfathrebu sy'n dod i'r amlwg yn cael ei rannu yn y digwyddiad hwnnw.

## 13. Diweddariad ar y Gymraeg

**13.1.** Cyflwynwyd eitem 13 ar lafar.

**13.2.** **Nodwyd** bod rhestr termau Cymraeg wedi cael ei llunio ac y bydd yn cael ei hanfon cyn hir.

**13.3.** **Nodwyd** bod adborth cadarnhaol o'r gweithdai yn cynnwys yr ymrwymiad i ddatganiadau dwyieithog a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Bydd nodyn yn cael ei baratoi ar gyfer yr holl Swyddogion Canlyniadau Etholaethol i adlewyrchu'r farn gyffredinol y daethpwyd iddi yn y Bwrdd ac yn y gweithdai.

## 14. Y Comisiwn Etholiadol

**14.1.** Cyflwynwyd eitem 14 ar lafar.

**14.2.** **Nodwyd** bod arweiniad i Swyddogion Canlyniadau wedi cael ei gyhoeddi bellach mewn fformat HTML a'i fod wedi cael ei ddiweddaru i ystyried y darpariaethau deddfwriaethol newydd. Mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

**14.3.** **Nodwyd** bod rôl Swyddogion Canlyniadau wedi'i hegluro bellach, gan gynnwys cyfeiriadau at gyfrifoldebau trawsffiniol. Crybwyllir y system bleidleisio newydd ac mae newidiadau amrywiol i gyfrifoldebau Asiantiaid Etholiad.

**14.4.** **Nodwyd** bod arweiniad ar hygyrchedd wedi'i gyhoeddi yr wythnos hon ac y bu'n destun ymgynghoriad gydag ystod eang o grwpiau. **Nodwyd** y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr.

**14.5.** **Nodwyd** y bydd bwletin Gweinyddwyr Etholiadol yr wythnos nesaf yn cynnwys y ffurflen archebu ar gyfer y llawlyfr gorsafoedd pleidleisio.

**14.6.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi ysgrifennu at yr holl Swyddogion Canlyniadau yn ddiweddar ynglŷn â monitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau. **Nodwyd** y bydd hyn ac arolwg y Comisiwn Etholiadol yn rhoi sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer y polau.

**14.7.** **Nodwyd** bod cymorth ar gael gan swyddfa'r Comisiwn drwy e-bost, dros y ffôn a thrwy linell y tu allan i oriau a fydd ar waith o fis Mawrth.

**14.8.** Trafodwyd yr arweiniad ar hygyrchedd a'r ffaith nad oes un dull sy'n addas i bawb.

**14.9.** Trafodwyd y gwaith a wnaed yn y cefndir gan Weinyddwyr Etholiadol ar gitiau hygyrchedd ar gyfer gorsafoedd pleidleisio.

**15. Llywodraeth Cymru (LlC)**

**15.1.** Cyflwynwyd eitem 15 ar lafar.

**15.2.** **Nodwyd** bod y cylchlythyr etholiadau a anfonwyd yn cynnwys diweddariadau ar y Cynllun Grant Amrywiaeth Ymgeiswyr, y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig a'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth.

**15.3.** **Nodwyd** bod yr ymgynghoriad ar newidiadau i reolau etholiadau lleol ar agor o hyd ac y bydd yn cau ar 12 Ionawr. **Nodwyd** y bwriedir i'r newidiadau arfaethedig gyd-fynd â Gorchymyn Cynnal Etholiadau'r Senedd.

**15.4.** **Nodwyd** y daeth y gorchymyn anghymhwyso i rym fis diwethaf.

**15.5.** **Nodwyd** bod y rheoliadau drafft ar gyfer Ymgeisio Ar-lein am Bleidlais Absennol wedi cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad â'r Comisiwn Etholiadol ddoe.

**15.6.** **Nodwyd** bod opsiynau cyllido ar gyfer llythyrau hysbysu aelwydydd yn cael eu datblygu ac y trafodwyd a fydd yn canolbwyntio ar bleidleiswyr drwy'r post neu'n cynnwys yr holl etholwyr.

**15.7.** Trafodwyd pryderon ynglŷn â'r amserlen a chapasiti mewn perthynas â llythyrau hysbysu aelwydydd, gan **nodi** bod rhaid i'r ymarfer pleidleisio drwy'r post a gedwir yn ôl llawn gael ei gwblhau erbyn 31 Ionawr. Bydd y risgiau a'r materion yn cael eu datblygu'n fanylach gan y Grŵp Cynllunio Etholiadau, eu hychwanegu at gofrestr risgiau'r BRhE a'u cyflwyno'n ôl i'r Bwrdd gyda chyngor ar gamau gweithredu i'w cymryd. Gofynnwyd i LlC fyfyrio ar y pwyntiau a wnaed yng nghyfarfod y Bwrdd wrth iddynt ddatblygu eu cynigion

ymhellach.

**15.8.** **Nodwyd** y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf ar y gorchymyn taliadau a'r gorchymyn cyfrifon. **Nodwyd** bod newidiadau o ganlyniad i chwyddiant, etholaethau newydd, ni fydd costau COVID yn berthnasol i'r etholiad hwn a bydd yr etholiad yn un annibynnol yn hytrach na chyfunol (fel oedd yn wir yn 2021). Roedd y Bwrdd yn falch o nodi y byddai'r cyngor yn cael ei gyhoeddi'r wythnos ganlynol a dywedodd nad oedd am weld oedi pellach.

**15.9.** **Nodwyd** bod y pwyllgorau wedi derbyn tystiolaeth lafar ar gyfer y Bil Atebolrwydd Aelodau ac y disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno cyn y Nadolig a ddilynir gan drafodaeth ym mis Ionawr. Mae'r BRhE wedi cyflwyno llythyr sy'n cadarnhau ei fod yn credu y dylai polau adalw ddod o fewn ei gwmpas o ran swyddogaethau presennol y BRhE ac y dylai atebolrwydd am gyflwyno'r polau aros gyda Swyddogion Canlyniadau.

## 16. Diweddariadau Asiantaethau – Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**16.1.** Cyflwynwyd eitem 16 ar lafar.

**16.2.** **Nodwyd** y bydd y ddogfen strategaeth yn cael ei darparu'n ysgrifenedig a'i bod yn symud ymlaen i gael ei throsi'n ddeddfwriaeth.

**16.3.** **Nodwyd** y bydd y Bil arfaethedig yn ymdrin ag ymrwymiadau maniffesto ar bleidleisio yn 16 oed ac ymestyn yr etholfraint i'r polau sy'n weddill ar draws y Deyrnas Unedig i wella cofrestru pleidleiswyr.

**16.4.** **Nodwyd** bod gwelliannau i'r fframwaith cyllid gwleidyddol a mân ddiwygiadau i brofi hunaniaeth pleidleiswyr, gan gynnwys ychwanegu cardiau banc at y rhestr o brofion adnabod a dderbynnir.

**16.5.** **Nodwyd** bod aflonyddu a brawychu ymgeiswyr, ymgyrchwyr a staff etholiadol yn cael ei archwilio, hefyd.

**16.6.** **Nodwyd** bod gwaith yn cael ei wneud i dreialu rhai ymyriadau pleidleisio hyblyg erbyn mis Mai, yn Lloegr yn unig, ac yr ystyrir pethau tebyg y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymchwilio iddynt, fel pleidleisio cynnar a hybiau pleidleisio.

**16.7.** **Nodwyd** y bydd y rôl Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n cael ei dirwyn i ben.

**16.8.** **Nodwyd** y bydd cyfnod PD yn ei swydd yn dod i ben fis Chwefror nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i PD am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth a'i gyfraniad at waith y gymuned etholiadol, a werthfawrogir yn fawr. Diolchodd y Cadeirydd i PD hefyd am ei gymorth yn ystod ei chyfnod yn y swydd, yr oedd yn ei werthfawrogi'n fawr.

## 17. Diweddariadau Asiantaethau – Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)

**17.1.** Cyflwynwyd eitem 17 ar lafar.

**17.2.** **Nodwyd** bod dogfen sy'n crynhoi'r newidiadau allweddol i etholiad y Senedd wedi cael ei chylchredeg.

**17.3.** **Nodwyd** bod y sesiwn hyfforddi a dilysu cyfrif gyntaf wedi cael ei chyflwyno ddoe ac y bydd un arall yn cael ei chynnal ddydd Mawrth nesaf. **Nodwyd** bod y daenlen D'Hondt wedi cael ei chylchredeg ar ôl y sesiwn.

**17.4.** **Nodwyd** bod yr hyfforddiant ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio bron â'i gwblhau ac y bydd bellach yn cael ei gyfieithu er mwyn ei gylchredeg ym mis Chwefror.

**17.5.** **Nodwyd** y cynhaliwyd cyfarfod cangen yr AEA yn gynharach yr wythnos hon a roddodd adborth ar gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, deddfwriaeth cydgyfeirio pleidleisiau absennol a llythyrau hysbysu aelwydydd.

**17.6.** **Nodwyd**, o ystyried y materion hyn a chynnal etholiad y Senedd a'r canfasiad blynyddol, bod yr AEA yn pryderu ynglŷn ag amseru gweithredu o gofio y bydd yn flwyddyn drom iawn ar gyfer gweithgarwch.

**17.7.** **Nodwyd** bod yr AEA yn pryderu ynglŷn ag a yw gweithredu cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig a'r ddeddfwriaeth cydgyfeirio pleidleisiau absennol yn cydymffurfio'n briodol ag egwyddor Gould.

## 18. Unrhyw Fater Arall

**18.1.** Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 6 Chwefror 2026

# CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 6 CHWEFROR 2026 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS**

**Yn bresennol:** Eifion Evans (Cadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Beverly Owen (Aelod); Martin Nicholls (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Andrew Wilkins (yn cynrychioli Paul Orders)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Jo Nelson (Uwch Reolwr Etholiadau); Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd)

**Gwahoddedigion:** Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Rhydian Thomas (y Comisiwn Etholiadol); Elan Closs Stephens (y Comisiwn Etholiadol); Clare Sim (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)); Arwyn Jones (Comisiwn y Senedd); Michael Kay (Llywodraeth Cymru); Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion); Mark O'Shea (Heddlu De Cymru); Paula Walters (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru); Rhys George (AEA); Richard Harris (AEA); Ruth Law (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)); Samantha Parsons (y Post Brenhinol); Sarah Ling (Ymgynghorydd); William Whiteley (Llywodraeth Cymru); Mathew Xerri (Llywodraeth Cymru); Ywain W (y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol); Freddy Raistrick (Storm and Shelter); Mac Nixon (Storm and Shelter)

**Ymddiheuriadau:** Karen Jones (Cadeirydd); Paul Orders (Aelod); Shereen Williams (CDFfC); Becca Crosier (MHCLG), Paul Docker (MHCLG)

**Amser Dechrau: 10:01**
**Amser Gorffen: 12:10**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Dim.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**2.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr.

**3. Cofnod Camau Gweithredu**

**3.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 3.

## 4. Diweddariad gan y Post Brenhinol

**4.1.** **Nodwyd** mai Doxford yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau ynglŷn ag etholiadau o hyd.

**4.2.** **Nodwyd** bod y Post Brenhinol wedi bod yn gweithio gydag Ofcom i sicrhau bod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn fwy cynaliadwy yn ariannol.

**4.3.** **Nodwyd** bod nifer y llythyrau a anfonir yn lleihau, o 20 miliwn yn ystod y flwyddyn 24/25 i 6.3 miliwn.

**4.4.** **Nodwyd** bod newidiadau i ddiwrnodau danfon, a bod danfoniadau ail ddosbarth yn cael eu gwneud 6 diwrnod yr wythnos.

**4.5.** **Nodwyd** bod y Post Brenhinol yn cynnig newid danfoniadau post ymgeiswyr i gyfnod pedwar diwrnod, gan roi dau gyfle iddynt weithredu model danfon bob yn ail ddydd. Mae'n cael ei brofi ar hyn o bryd mewn 35 safle peilot. Mae hyn yn rhoi dau ymgais i ddanfon cardiau pleidleisio at bob aelwyd.

**4.6.** Trafodwyd peidio â defnyddio'r model danfon 4 diwrnod o ddydd Llun i ddydd Gwener ar gyfer danfon cardiau pleidleisio eto gan ei fod ar gam peilot o hyd.

**4.7.** **Nodwyd** bod 2-3 safle peilot yng Nghymru ac y bydd y safleoedd eraill yn gweithredu yn unol â'r cyfnod 3 diwrnod arferol. **Nodwyd** mai'r safleoedd peilot yw'r Coed-duon, Brynbuga a Phont-y-pŵl.

**4.8.** Trafodwyd dull ardal wrth ardal yn hytrach nag un sy'n rhychwantu Cymru gyfan.

**4.9.** Trafodwyd gwybod pa ardaloedd daearyddol yn union yr effeithir arnynt.

**4.10.** **GWEITHREDU:** Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) i ysgrifennu at y Post Brenhinol i ofyn iddynt beidio â chyflwyno mwy o newidiadau i ddanfoniadau tan ar ôl etholiad mis Mai.

## 5. Y Grŵp Cynllunio Etholiadau – diweddariad

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Ionawr 2026.

**5.2.** **Nodwyd** bod MP a JN wedi cyfarfod â BRhE yr Alban i drafod darpariaethau ar gyfer pleidleiswyr dall a rhai sy'n gweld yn rhannol, a'r posibilrwydd o gaffael y rhain yn ganolog.

5.3. **Nodwyd** bod papurau pleidleisio'r Alban yn gwbl unffurf, sy'n eu galluogi i ddarparu troshaen gardbord o un maint i'w defnyddio ledled y wlad.

5.4. **Nodwyd** er y byddai hyn yn anodd ei gyflwyno yng Nghymru yn yr amgylchiadau presennol, y gellid ei ystyried ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

5.5. **Nodwyd** y bydd ffug bapurau pleidleisio'n cael eu rhannu yn rhan o nodyn ymarfer.

## 6. Fframwaith Sicrwydd y BRhE

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 6.

6.2. **Nodwyd** bod darn cychwynnol o waith sicrwydd wedi cael ei gynnal fis Medi diwethaf a thrafodwyd gwneud rhagor o waith yn y flwyddyn newydd.

6.3. **Cymeradwywyd** yr holiaduron sicrwydd gan y Bwrdd.

6.4. **Nodwyd** bod pedwar nodyn ymarfer wedi cael eu llunio, sef cymorth i bobl ddall ac sy'n gweld yn rhannol; dylunio papur pleidleisio; cyhoeddi cyfansymiau lleol yn y cyfrif a defnyddio'r Gymraeg yn y broses etholiadol.

6.5. **Nodwyd** y byddant yn cael eu cyhoeddi ddydd Llun.

## 7. Cofrestr risgiau etholiadau'r Senedd 2026

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 7.

7.2. **Nodwyd** bod ychydig o risgiau ychwanegol wedi cael eu hychwanegu ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf ynglŷn â chydgyfeirio pleidleisiau drwy'r post a Phontydd.

7.3. **Nodwyd** bod y cynllun marchnata ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP) wedi cael ei gytuno.

7.4. Trafodwyd cysondeb y Gymraeg wrth gyfieithu dogfennau. **Nodwyd** bod anghysondeb o ran sut mae Anerchiad Etholiadol yn cael ei gyfieithu ar bwrwpleidlais.cymru o gymharu â dogfennau eraill.

## 8. Seiberfygythiad Etholiad 26

8.1. Rhoddodd y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) gyflwyniad ar y seiberfygythiad i etholiadau 2026.

8.2. **GWEITHREDU:** Cylchredeg cwestiynau a ddarparwyd gan yr NCSC ynglŷn ag ymgysylltu â chyflenwyr systemau rheoli etholiadol (EMS) o ran

diogelwch.

## 9. Pontydd

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Ionawr 2026.

**9.2.** **Nodwyd** bod risg ynglŷn â Phontydd wedi cael ei hychwanegu yn y cyfarfod diwethaf.

**9.3.** **Nodwyd** y cafwyd sgyrsiau â Llywodraeth Cymru (LlC), y Grŵp Rheoli Etholiadau a'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â beth fyddai'n digwydd petai'r sefyllfa hon yn codi.

**9.4.** **Nodwyd** bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer oedi amserlen yr etholiad.

**9.5.** Petai hyn yn digwydd, **nodwyd** bod y mesurau lliniaru'n cynnwys cylchredeg arweiniad i'r Bwrdd gan y Comisiwn Etholiadol.

**9.6.** **Cytunodd** y Bwrdd â'r mesur lliniaru hwn.

**9.7.** Trafodwyd y cyfnod galaru a gynhaliwyd yn 2022 – pan ddigwyddodd hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd bob dydd â Heddlu De Cymru, LlC a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

## 10. Diweddariad ar Brosiect y Platfform

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 9.

**10.2.** **Cymeradwyodd** y BRhE yr Hysbysiad Cyflwyno, gan **nodi'r** risgiau.

**10.3.** **Nodwyd** bod yr arweiniad i Swyddogion Canlyniadau, ymgeiswyr ac asiantiaid wedi cael ei gyflwyno ar gyfer sylwadau ar ddechrau mis Ionawr.

**10.4.** **Nodwyd** nad oedd unrhyw bleidiau gwleidyddol wedi gwneud sylwadau ar yr arweiniad i ymgeiswyr ac asiantiaid.

**10.5.** **Nodwyd** bod yr arweiniad i Swyddogion Canlyniadau wedi cael ei gyhoeddi bellach ar wefan Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC), ac y bydd yr arweiniad i ymgeiswyr ac asiantiaid yn cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf.

**10.6.** **Nodwyd** bod y gwiriad iechyd TG annibynnol yn cael ei gynnal yr wythnos hon, ac y bydd profion defnyddwyr o'r dechrau i'r diwedd yn cael eu cynnal yr wythnos nesaf gan staff CDFfC a rhai Gweinyddwyr Etholiadol. **Nodwyd** y bydd yr archwiliad allanol sy'n edrych ar barodrwydd technegol a gweithredol yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol.

**10.7.** **Nodwyd** bod cyfarfod nesaf y grŵp llywio ar 25 Chwefror, ac wedi hynny bydd neges e-bost yn cael ei hanfon at aelodau'r BRhE yn argymell bod y

lansiad yn cael ei gynnal fel y cynlluniwyd.

**10.8.** **Nodwyd** os bydd unrhyw faterion o bwys sy'n ysgogi cynlluniau wrth gefn, y bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r aelodau, ond bydd angen iddynt gymeradwyo trefniadau wrth gefn o'r fath.

**10.9.** **Nodwyd** bod yr NCSC wedi cynnig cyngor a chymorth ar brofi'r platfform.

## 11. Diweddariad ar gyfathrebu a marchnata

**11.1.** Cyflwynwyd eitem 10 ar lafar.

**11.2.** **Nodwyd** bod yr asedau a ddarparwyd gan Storm and Shelter ar gyfer hysbysebu'r platfform wedi'u cymeradwyo gan y Grŵp Llywio yr wythnos ddiwethaf.

**11.3.** Trafodwyd peidio â defnyddio'r ymadrodd 'Senedd Cymru' yn y fersiwn radio Gymraeg. **Cytunwyd** i'w ychwanegu er mwyn osgoi dryswch ynglŷn â pha etholiad y mae'n cyfeirio ato.

**11.4.** **Nodwyd** y bydd y Comisiwn Etholiadol yn trosglwyddo'r deunyddiau gweledol hyn i weddill eu tîm, ac y bydd angen unrhyw sylwadau erbyn dechrau'r wythnos nesaf.

**11.5.** **Nodwyd** bod yr asedau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan CDFfC fore heddiw i'w defnyddio gan gynghorau wrth hyrwyddo'r platfform.

**11.6.** Trafodwyd yr asedau. **Nodwyd** y bydd yr hysbysebion teledu Cymraeg ar S4C ac y bydd yr hysbysebion Saesneg ar ITV a Sky.

**11.7.** **Cymeradwywyd** yr asedau, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 12. Diweddariad ar gyfathrebu

**12.1.** Cyflwynwyd eitem 11 ar lafar.

**12.2.** **Nodwyd** bod grŵp cyfathrebu etholiadau'r Senedd wedi bod yn cyfarfod bob deufis ond eu bod bellach wedi newid i gyfarfod yn fisol.

**12.3.** **Nodwyd** bod gan CDFfC, y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Senedd eu cynlluniau cyfryngau eu hunain sydd wedi'u casglu ynghyd mewn un daenlen er mwyn osgoi dyblygu.

**12.4.** **Nodwyd** bod deunydd cyfathrebu rheolaidd yn cael ei anfon at swyddogion etholiadol.

**12.5.** **Nodwyd** bod sesiwn friffio wedi'i threfnu yr wythnos nesaf gydag arweinwyr cyfathrebu awdurdodau lleol.

**12.6.** **Nodwyd** bod sesiynau briffio'r cyfryngau wedi bod yn digwydd a bod rhai eraill wedi'u cynllunio yn agos i ddyddiad lansio'r platfform.

## 13. Y Comisiwn Etholiadol

**13.1.** Cyflwynwyd eitem 12 ar lafar.

**13.2.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol ar y trywydd iawn ar gyfer eu hymgyrch a fydd yn dechrau ar 23 Chwefror tan fis Ebrill.

**13.3.** Nodwyd y bydd yr wythnos 'Croeso i'ch Pleidlais' yn digwydd fis nesaf.

**13.4.** Nodwyd y bydd y llyfryn i aelwydydd yn cael ei anfon ar 23 Mawrth, fel y bwriadwyd.

**13.5.** Nodwyd y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyfarfod â'r Drefn Reoli Aur ddydd Mawrth ynglŷn â chymorth lleol o fewn heddluoedd penodol. Bydd seminar SPOC genedlaethol yn cael ei chynnal ar 16 Chwefror hefyd a fydd yn dwyn holl arweinwyr yr heddluoedd ynghyd.

**13.6.** Nodwyd y bydd y panel pleidiau gwleidyddol cyn-etholiad yn cael ei gynnal ddydd Mawrth, a fydd yn dwyn ynghyd Brif Weithredwyr, cyfarwyddwyr ac ysgrifenyddion cyffredinol y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru.

**13.7.** Trafodwyd gwahodd cynrychiolydd o'r panel pleidiau gwleidyddol i un o gyfarfodydd y BRhE yn y dyfodol i godi unrhyw gwestiynau neu bryderon gyda rheolwyr etholiadau yng Nghymru.

**13.8.** Nodwyd bod y Comisiwn Etholiadol wedi cyfarfod â 19 o'r 22 o Swyddogion Canlyniadau ledled Cymru yn ystod y mis diwethaf.

**13.9.** Nodwyd bod 22 awdurdod wedi ymateb i arolwg cyn pôl y Comisiwn Etholiadol, a bydd eu hymatebion yn cael eu rhannu gyda'r BRhE.

**13.10.** Nodwyd bod y sgript ar gyfer datganiad dwyieithog wedi cael ei chyhoeddi ddoe.

**13.11.** Nodwyd bod templed newydd wedi cael ei gylchredeg ar gyfer casglu manylion cyswllt ymgeiswyr.

## 14. Llywodraeth Cymru

**14.1.** Cyflwynwyd eitem 13 ar lafar.

**14.2.** Nodwyd bod ffigurau drafft ar gyfer uchafswm symiau adenilladwy wedi cael eu cylchredeg, a bod rhai materion yn ymwneud â'r data wedi cael eu cywiro.

**14.3.** Nodwyd bod LIC wedi ysgrifennu at bleidiau gwleidyddol ynglŷn â grantiau cymorth amrywiaeth. Mae Elect Her a Race Equality First yn gallu rhoi cymorth ar gyfer etholiad y Senedd ac etholiadau lleol.

**14.4.** Nodwyd bod gweithdy wedi cael ei gynnal ynglŷn â chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig a oedd yn cynnwys gwerthusiad o'r cynlluniau peilot.

**14.5.** Nodwyd bod y Bil Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau gerbron y Senedd ac y bydd y cam diwygio gan bwyllgor yn cael ei gynnal ddydd Iau y 12fed.

**14.6.** Nodwyd bod diwygiad yn cynnwys ymestyn cylch gwaith y BRhE i gynnwys y polau adalw arfaethedig.

## 15. Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**15.1.** Cyflwynwyd eitem 14 ar lafar.

**15.2.** Nodwyd y bydd y bil Etholiadau'n cael ei gyflwyno cyn hir. Pan fydd yn y senedd, bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon a bydd sesiwn friffio'n cael ei darparu ar yr hyn y mae'r bil yn ei olygu i Gymru.

**15.3.** Nodwyd bod cynlluniau peilot pleidleisio hyblyg wedi cael eu caniatáu mewn etholiadau lleol yn Lloegr fis Mai eleni.

**15.4.** Nodwyd y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn treialu hyb pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio a phleidleisio cynnar yn ystod y diwrnodau cyn y diwrnod pleidleisio ar 7 Mai.

**15.5.** Nodwyd bod Paul Docker, sy'n ymddeol ar ddiwedd y mis, wedi dweud y gall pobl gysylltu ag ef i gael rhagor o wybodaeth am y Post Brenhinol.

## 16. Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)

**16.1.** Cyflwynwyd eitem 15 ar lafar.

**16.2.** Nodwyd bod cynhadledd yr AEA wedi cael ei chynnal ar 25-27 Ionawr a'i bod wedi cael llawer o adborth cadarnhaol.

**16.3.** Nodwyd bod hyfforddiant enwebu'n digwydd ac y bydd sesiwn holi ac ateb yn cael ei chynnal yng nghyfarfod cangen Cymru ar 3 Mawrth.

**16.4.** Nodwyd y bydd sesiynau galw heibio wythnosol yn parhau yn ystod cyfnod yr etholiad trwy Teams ac y byddant yn dechrau ar 24 Mawrth.

**16.5.** Nodwyd bod mwyafrif y staff pleidleisio'n cael hyfforddiant ar draws etholaethau. Mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cwblhau'n derfynol.

## 17. Unrhyw Fater Arall

**17.1.** Trafodwyd cyfarfod mis Mawrth a'r ffaith ei fod ar ddechrau cyfnod yr etholiad. Cytunwyd i gwtogi'r agenda.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 6 Mawrth 2026

# CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 6 MAWRTH 2026 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS**

**Yn bresennol:** Karen Jones (Cadeirydd); Eifion Evans (Dirprwy Gadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Beverly Owen (Aelod); Martin Nicholls (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Paul Orders (Aelod);

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Jo Nelson (Uwch Reolwr Etholiadau); Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd)

**Gwahoddedigion:** Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Rhydian Thomas (y Comisiwn Etholiadol); Michael Kay (Llywodraeth Cymru); Mathew Xerri (Llywodraeth Cymru); Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion); William Whiteley (Llywodraeth Cymru); Elan Closs Stephens (y Comisiwn Etholiadol); Rhys George (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)); Becca Crosier (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)); Clare Sim (AEA); Ywain W (y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol); Simon Belcher (Heddlu De Cymru); Arwyn Jones (Comisiwn y Senedd)

**Ymddiheuriadau:**

**Amser Dechrau: 10:01**
**Amser Gorffen: 11:46**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Dim.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**2.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror yn amodol ar fân newidiadau.

**3. Cofnod Camau Gweithredu**

**3.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 3.

**3.2.** **Nodwyd** bod rhai camau gweithredu wedi cael eu cau o ganlyniad i gyhoeddi'r nodiadau ymarfer.

**3.3.** **Nodwyd** bod llythyr wedi cael ei anfon at y Post Brenhinol fel y cytunwyd yng nghyfarfod mis Chwefror, wedi'i lofnodi gan Shereen Williams ar ran y Bwrdd.

**3.4.** **Nodwyd** bod yr hysbysebion radio a theledu ar gyfer y Platfform wedi cael eu hailrecordio fel y cytunwyd yng nghyfarfod Bwrdd mis Chwefror.

**3.5.** **Nodwyd** bod yr holiadur sicrwydd cyntaf wedi cael ei anfon ac y bydd yr ail un yn cael ei anfon yr wythnos nesaf.

## 4. Y Grŵp Cynllunio Etholiadau – diweddariad a materion sy'n codi

**4.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Chwefror 2026.

**4.2.** **Nodwyd** bod pryderon wedi'u mynegi ynglŷn â diffyg arweiniad ar gyllid etholiad. Rhoddodd Llywodraeth Cymru (LlC) ddiweddariad yng nghyfarfod cangen Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) yr wythnos hon i ddweud y bydd ar ei ffordd cyn hir. **Nodwyd**, tra y disgwylir cadarnhad gan Weinidogion, y dylid anfon yr arweiniad ddydd Llun.

**4.3.** **Nodwyd** bod pryderon wedi'u mynegi ynglŷn ag amseru cyflwyno cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig a chapasiti timau etholiadau i'w gyflawni.

**4.4.** **GWEITHREDU:** Dechrau cofrestr risgiau ar gyfer etholiadau lleol a'i chyflwyno i'r Bwrdd pan fydd yr agenda'n llai prysur.

**4.5.** **Nodwyd** bod ail hanner cyfarfod y Grŵp Cynllunio Etholiadau yn cynnwys gweminar ar hygyrchedd, yn ymwneud yn arbennig â phleidleiswyr sy'n ddall a'r rhai sy'n gweld yn rhannol. Amlygwyd bod llythyrau templed wedi cael eu hanfon at rai cynghorau yn gofyn am addasiadau rhesymol, yn benodol dyfais Accord y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB).

**4.6.** **GWEITHREDU:** Atgoffa Swyddogion Canlyniadau Etholaethol bod y mater hwn yn fyw.

**4.7.** Trafodwyd disgwyliadau'r RNIB a'r hyn y gallent ei wneud ar ôl yr etholiad os nad oedd gan awdurdodau ddyfais Accord.

**4.8.** **Nodwyd** bod pwysau gan y BBC i gynnwys cyfansymiau pleidleisiau wrth gyhoeddi'r canlyniad, nad yw'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Mae adran ddewisol ar hyn wedi'i chynnwys yn sgript dempled y Comisiwn Etholiadol ar gyfer cyfrif. Cysylltwyd â Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol i geisio cael

syniad o faint sy’n bwriadu gwneud hyn a **nodir** bod Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn ystyried trefnu’r datganiad i gynnwys cyfansymiau pleidleisiau.

**4.9.** **GWEITHREDU: Cytunwyd** y byddai’r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) yn darparu arweiniad anffurfiol fel bod cysondeb ledled Cymru.

**4.10.** **Nodwyd** bod staff pleidleisio mewn is-etholiad diweddar yn dweud wrth bobl am gofio dod â phrawf adnabod gyda nhw i etholiad mis Mai er nad oes ei angen.

## 5. Diweddariad ar Sicrwydd y BRhE

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 27 Chwefror 2026.

**5.2.** **Nodwyd** bod yr ymatebion yn gadarnhaol, at ei gilydd, a bod cynlluniau awdurdodau ar gyfer yr etholiad ar gam datblygedig.

**5.3.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi rhannu data am ddyddiadau anfon cardiau pleidleisio a phleidleisiau drwy’r post.

**5.4.** **Nodwyd** bod dyddiadau anfon pleidleisiau drwy’r post a chardiau pleidleisio yn amrywio ychydig rhwng etholaethau. Mewn rhai achosion, bydd pobl yn un rhan o etholaeth yn cael eu cerdyn pleidleisio 10 niwrnod cyn pobl eraill yng ngweddill yr etholaeth.

**5.5.** **Nodwyd** y gofynnwyd i bobl a hoffent gael unrhyw gymorth ychwanegol gan y Bwrdd, ond ni chodwyd unrhyw beth.

## 6. Cofrestr risgiau etholiadau’r Senedd 2026

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem 6.

**6.2.** **Nodwyd** bod llawer o’r camau gweithredu wedi’u cau bellach a bod camau lliniaru wedi’u cymryd. Mae’r rhai sy’n weddill yn risgiau i’w monitro drwy gydol cyfnod yr etholiad.

**6.3.** **Nodwyd** y bydd yswiriant indemniad a threfniadau cyllido’n derbyn sylw yn arweiniad Llywodraeth Cymru (LlC) yr wythnos nesaf. Bydd swipiau’r Post Brenhinol yn derbyn sylw yn rhan o gontract LlC gyda’r Post Brenhinol.

**6.4.** **GWEITHREDU:** Ychwanegu hyn at y gofrestr risgiau a’i ystyried eto yng nghyfarfod mis Ebrill.

## 7. Diweddariad ar brosiect y Platfform

**7.1.** Cyflwynwyd eitem 7 ar lafar.

**7.2.** **Nodwyd** bod y platfform wedi cael ei lansio'n llwyddiannus ar 2 Mawrth.

**7.3.** **Nodwyd** bod yr ymgyrch hysbysebu ar waith.

**7.4.** **Nodwyd** bod Storm wedi cywiro rhai mân broblemau technegol yn gyflym.

**7.5.** **Nodwyd** y bydd y cam nesaf yn sicrhau bod yr holl dudalennau etholaethau'n cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bydd gwybodaeth i'w hychwanegu atynt, gan baratoi ar gyfer yr hysbysiadau etholiad a hyrwyddo'r wybodaeth hygyrchedd am orsafoedd pleidleisio.

**7.6.** **Nodwyd** y bydd y taflenni etholiad rhadbost yn cael eu hyrwyddo pan fyddant ar gael.

**7.7.** **Nodwyd** y bydd y ddadansoddeg ar gael i swyddogion yn ddiweddarach heddiw.

**7.8.** **Nodwyd** bod LlC yn gwerthfawrogi'r platfform, a bod Gweinidogion yn fodlon.

## 8. Diweddariad ar gyfathrebu

**8.1.** Cyflwynwyd eitem 8 ar lafar.

**8.2.** **Nodwyd** bod y Grŵp Cyfathrebu wedi cyfarfod yr wythnos ddiwethaf.

**8.3.** **Nodwyd** bod sesiwn friffio ar gyfer timau cyfathrebu awdurdodau lleol wedi cael ei chynnal fis diwethaf gyda Chomisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC).

**8.4.** **Nodwyd** y bydd dau gyfarfod arall cyn etholiad y Senedd a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y bydd hyn yn digwydd yn arwain at yr etholiadau lleol yn 2027.

**8.5.** **Nodwyd** mai un o'r materion allweddol a drafodwyd gan y grŵp oedd camwybodaeth a cham-drin ar-lein, gan gynnwys sut i reoli hyn.

## 9. Y Comisiwn Etholiadol

**9.1.** Cyflwynwyd eitem 9 ar lafar.

**9.2.** **Nodwyd** bod ymgyrch gofrestru'r Comisiwn Etholiadol wedi lansio.

**9.3.** **Nodwyd** bod yr wythnos Croeso i'ch Pleidlais yn dechrau yr wythnos nesaf, a dim ond 14% o bobl ifanc sy'n ymwybodol o'r etholiad sydd i ddod.

**9.4.** **Nodwyd** y disgwylir i lyfryn y Comisiwn Etholiadol ar gyfer aelwydydd gael ei anfon ar ddiwedd y mis.

**9.5.** **Nodwyd** bod yr arolwg Swyddogion Canlyniadau wedi cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr i gasglu gwybodaeth am baratoadau cyn yr etholiad ac fe’i cwblhawyd gan Reolwyr Gwasanaethau Etholiadol.

**9.6.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi cyfarfod â’r holl Swyddogion Canlyniadau Etholaethol i drafod eu cynlluniau ar gyfer mis Mai.

**9.7.** **Nodwyd** bod yr arolwg yn dangos nad yw gweinyddwyr yn rhagweld unrhyw risgiau newydd o bwys a bod yr heriau’n adlewyrchu polau blaenorol, at ei gilydd. Adroddwyd capasiti sefydlog ar gyfer timau etholiadol a gwnaed pwyntiau ynglŷn â chynnydd hwyr mewn ceisiadau am bleidleisio drwy’r post, sy’n parhau i fod yn risg weithredol.

**9.8.** **Nodwyd** bod cydlynu’n amrywio’n fawr ar draws ffiniau, wrth i rai weithredu protocolau ffurfiol a chytundebau lefel gwasanaeth tra bod eraill yn defnyddio cyfarfodydd mwy anffurfiol.

**9.9.** **Nodwyd** bod yr ymatebion yn dangos rhaniad bach rhwng cyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Swyddogion Canlyniadau ar gyfer yr etholiad, gan fod rhai Swyddogion Canlyniadau’n ildio i’r Swyddog Canlyniadau Etholaethol ar rai materion.

**9.10.** **Nodwyd** bod y rhan fwyaf o gynghorau wedi cynllunio sesiynau briffio i ymgeiswyr ac asiantiaid.

**9.11.** **Nodwyd** bod wyth cyngor yn dibynnu ar wirio proflenni’n rhithwir yn unig ar gyfer y cardiau pleidleisio a’r papurau pleidleisio, a bod risg ychydig yn uwch yn gysylltiedig â’r dull hwn o gymharu ag ymweld â’r argraffwyr.

**9.12.** **Nodwyd** bod 12 cyngor wedi dweud y byddant yn defnyddio cofrestrau electronig, sy’n gyfran sylweddol uwch na gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Mae gan bob un o’r 12 gynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer copïau argraffedig wrth gefn o’r gofrestr.

**9.13.** **Nodwyd**, ar adeg yr arolwg, bod mwyafrif y Swyddogion Canlyniadau wedi nodi eu lleoliadau ar gyfer cyfrif a dilysu. Roedd hyfforddiant staff ar waith ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Etholaethol.

**9.14.** **Nodwyd** bod awdurdodau wedi bod yn gweithio gyda Chomisiwn y Senedd i annog ymgysylltiad cryf ag ieuenctid ledled Cymru.

**9.15.** **Nodwyd** bod yr arolwg yn dangos ymgysylltiad gwan â gwladolion tramor cymwys. Nid oes gan draean o gynghorau gynlluniau i weithio gyda grwpiau cymdeithas sifil, gan nodi cyfyngiadau adnoddau fel rheswm dros hyn.

**9.16.** **Nodwyd** bod pob cyngor namyn un yn disgwyl bodloni’r gofyniad hygyrchedd gan fod nifer o orsafoedd nad ydynt yn gwbl hygyrch ac nid oes dewisiadau amgen ar gael.

**9.17.** **Nodwyd** mai dim ond dau gyngor sy'n cynnig cymorth mewn ieithoedd eraill i etholwyr sydd â gafael cyfyngedig ar y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n sylweddol is na gwledydd eraill.

**9.18.** **Nodwyd** bod rhywfaint o ansicrwydd ymhlith rhai awdurdodau ynglŷn â phwy yw eu Pwynt Cyswllt Unigol.

**9.19.** **Nodwyd** bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi cofnodi ymateb niwtral neu fodlon i gwestiynau ynglŷn â chymorth gan y BRhE, gyda rhywfaint o feirniadaeth ynglŷn â gwybodaeth hwyr.

## 10. Diweddariad ar Blismona

**10.1.** **Nodwyd** bod strwythurau llywodraethu a rheoli wedi cael eu sefydlu'n gynnar ledled Cymru, er mwyn sicrhau gwasanaeth cyson ledled Cymru.

**10.2.** **Nodwyd** bod cyfarfodydd dal i fyny'n cael eu cynnal yn rheolaidd, gan bwysleisio casglu gwybodaeth.

**10.3.** **Nodwyd** y bu 37 digwyddiad y llynedd yn ymwneud ag aelodau'r Senedd, sef cyfathrebu maleisus, yn bennaf.

**10.4.** **Nodwyd** mai un o'r bygythiadau mwyaf yw camwybodaeth ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac e-bost.

**10.5.** **Nodwyd** bod cryn dipyn o waith hyfforddiant ac ymwybyddiaeth wedi cael ei wneud, gan amlygu pryderon ynglŷn â chamwybodaeth a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial.

**10.6.** Trafodwyd y ffaith fod rôl y Pwynt Cyswllt Unigol wedi'i chyfyngu i faterion twyll etholiadol a'r ffordd orau o sicrhau adnoddau ar gyfer materion eraill yn ymwneud â'r etholiad. Amlygwyd y bydd SB yn cyfarfod â phrif swyddogion eraill i sicrhau trefniadau llywodraethu llawn mewn perthynas ag aflonyddu a threfn gyhoeddus.

**10.7.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi cyfarfod â holl Bwyntiau Cyswllt Unigol yr heddlu fis diwethaf i drafod y pwyntiau hyn ac y bydd yn cyhoeddi taflen grynhoi anffurfiol i amlygu cyfrifoldebau Pwyntiau Cyswllt Unigol er mwyn egluro beth yw'r disgwyliadau.

**10.8.** Trafodwyd is-etholiad diweddar Gorton a Denton, gan amlygu'r honiad gan un blaid bod yr etholiad wedi cael ei ddwyn gan y Blaid Werdd trwy gamymarfer.

**10.9.** Cynhaliwyd trafodaeth gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) sydd wedi cynnig darparu asedau seiberddiogelwch i helpu'r sesiynau briffio diogelwch parhaus. Roeddent yn annog adrodd am unrhyw fygythiadau yn ymwneud â'r etholiad fel y gallant chwilio am dueddiadau.

**10.10.** Trafodwyd y sesiynau briffio i ymgeiswyr ac asiantiaid ac a oes defnydd cyson ohonynt rhwng pleidiau. **Nodwyd** nad yw'r ymgysylltiad yn gyfartal.

**10.11.** Awgrymodd y Comisiwn Etholiadol ddod â chynrychiolwyr o Banel Pleidiau'r Senedd i'r grŵp hwn i drafod materion ymgysylltu yn y sesiynau briffio i ymgeiswyr ac asiantiaid.

**10.12.** Trafodwyd y posibilrwydd y gallai'r ffurflenni enwebu fod yn anghywir neu'n anghyflawn, a'i bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i ailadrodd yr hyn a grybwyllwyd yn y sesiynau briffio hyn.

**10.13.** Trafodwyd cofnodi pa gamau sy'n cael eu cymryd i ymgysylltu â'r holl bleidiau gwleidyddol.

**Llywodraeth Cymru**

**10.14.** Cyflwynwyd eitem 10 ar lafar.

**10.15.** **Nodwyd** y bydd yr arweiniad ar y gorchymyn taliadau'n cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf.

**10.16.** **Nodwyd** bod LlC wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar senarios diogelwch petai rhywbeth yn digwydd, gan gynnwys asiantaethau eraill fel yr heddlu a'r Comisiwn Etholiadol.

**10.17.** **Nodwyd** bod cylch gwaith y BRhE wedi cael ei ymestyn i gynnwys polau adalw, yn unol â'r dystiolaeth a ddarparwyd. Mae hyn bellach yn rhan o'r Bil Atebolrwydd Aelodau a bydd cam diwygio arall yn cael ei gynnal ar 17 Mawrth.

**10.18.** **Nodwyd** ei bod yn ofynnol i LlC gyflwyno asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru yr wythnos nesaf a'u bod yn diweddaru rhai o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â chynnal pôl adalw a fydd yn unol â'r gorchymyn taliadau.

**10.19.** Trafodwyd diogelwch a ph'un a fu cwestiynau gan y cyhoedd neu'r cyfryngau ynglŷn â'r bwlch rhwng diwedd y pôl a dechrau'r broses dilysu a chyfrif. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi codi hyn mewn sgyrsiau gyda Swyddogion Canlyniadau Etholaethol.

## 11. Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**11.1.** Cyflwynwyd eitem 11 ar lafar.

**11.2.** **Nodwyd** bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn gweithio gyda LlC a phartneriaid eraill ar ddiogelwch etholiadau.

**11.3.** **Nodwyd** bod yr Uned Diogelwch a Pharodrwydd Etholiadau ar y Cyd (JESP) wedi cyhoeddi arweiniad i ymgeiswyr yn gynharach yn y flwyddyn.

**11.4.** **Nodwyd** eu bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref i egluro pwy sy'n gwneud beth o ran plismona.

**11.5.** **Nodwyd** bod y Bil Cynrychiolaeth y Bobl yn y Senedd, bellach. Mae'n ymdrin â chynnal etholfraint, cofrestru a chyllid gwleidyddol, yn ogystal â materion yn ymwneud ag aflonyddu a brawychu.

**11.6.** **Nodwyd** y bydd y Bil yn mynd gerbron pwyllgor ar 18 Mawrth a bod yr AEA, y Comisiwn Etholiadol a'r BRhE wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth.

**11.7.** **Nodwyd** y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gan Philip Rycroft ddiwedd mis Mawrth ar ymyrraeth dramor ag etholiadau a phrosesau democrataidd, gyda phwyslais arbennig ar gyllid.

**11.8.** Trafodwyd y ffaith y bydd Senedd newydd ar waith ym mis Mai ac na ellir rhagfynegi'r awydd am gydgyfeirio ar ôl mis Mai 2026.

**11.9.** Trafodwyd cofrestru awtomatig a'r ffaith bod San Steffan yn disgwyl iddo gael ei weithredu erbyn 2030 ond bod LIC yn awyddus iddo gael ei weithredu'n gynharach yng Nghymru.

## 12. Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

**12.1.** Cyflwynwyd eitem 12 ar lafar.

**12.2.** **Nodwyd** y bydd sesiwn galw heibio ynglŷn ag enwebu ar gyfer aelodau ar 23 Mawrth.

**12.3.** **Nodwyd** y bydd sesiwn galw heibio ynglŷn â'r etholiad yn cael ei chynnal bob wythnos o 24 Mawrth ymlaen.

**12.4.** **Nodwyd** y cynhaliwyd gweminar ar 3 Chwefror gyda'r bobl a gynhaliodd is-etholiad Runcorn a Helsby.

**12.5.** **Nodwyd** bod fforwm gwirio a chysylltu ar gyfer Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol yn cael ei sefydlu i drafod materion yn ymwneud â baneri ac ymholiadau eraill.

## 13. Unrhyw Fater Arall

**13.1.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol yn cael gwybodaeth gan bleidiau gwleidyddol ynglŷn â phryderon ynghylch gallu'r Post Brenhinol i gyflawni.

**13.2.** **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol a'r AEA wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Post Brenhinol ar lefel y Deyrnas Unedig ac y byddant yn cynyddu i ddwywaith yr wythnos ym mis Ebrill.

**13.3.** **Nodwyd** bod cydweithwyr yn LIC wedi trefnu cyfarfod gyda chyflenwyr amrywiol hefyd, gan gynnwys y Post Brenhinol, a oedd yn awyddus i bwysleisio nad oes ganddynt bryderon o bwys ar y cam hwn.

**13.4.** **Nodwyd** bod Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (WECB) wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â phrawfddarllen y papur pleidleisio mewn etholiadau blaenorol. Trafodwyd a allai'r BRhE gyhoeddi canllawiau tebyg, a nodwyd bod sleidiau wedi cael eu rhannu gan BRhE yr Alban ar y pwnc hwn.

**13.5.** **GWEITHREDU:** Y BRhE i gylchredeg y sleidiau a rannwyd gan BRhE yr Alban ar wirio proflenni.

**13.6.** **Nodwyd** y bydd llinell gyngor y tu allan i oriau'r Comisiwn Etholiadol yn dechrau ar 23 Mawrth ac y bydd yn ateb galwadau tan 9pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar benwythnosau a gwyliau banc hyd at yr etholiad.

**13.7.** **Nodwyd** bod BRhE yr Alban wedi cynnal hyfforddiant yr wythnos hon ar y broses enwebu.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 10 Ebrill 2026